Gwella gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru

AGC@llyw.cymru | arolygiaethgofal.cymru

# Adroddiad Blynyddol y **Prif Arolygydd** 2024-2025



Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

**Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd**

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

**Yn fy adroddiad blynyddol y flwyddyn diwethaf, soniais am ba mor aml rydym yn gweld gofal cymdeithasol a gofal plant yn trawsnewid bywydau er gwell, hyd yn oed yn wyneb pwysau yn y system. Y flwyddyn hon, rwy'n ysgrifennu ar adeg o her barhaus yng Nghymru. Mae pob sector, i raddau amrywiol, yn ei chael hi'n anodd recriwtio a chadw staff. Mae pwysau ar gyllidebau yn thema gyson i wasanaethau o hyd ac mae'r galw am help yn cynyddu. Gwelwn enghreifftiau o brinder staff cymwys mewn meithrinfeydd neu gartrefi gofal, prinder cartrefi plant neu ofalwyr maeth lle mae eu hangen fwyaf a gorgyflenwad o ofal cartref mewn rhai ardaloedd trefol tra bo prinder mewn rhannau o Gymru wledig.**

Mae'r cyfuniad o'r ffactorau hyn yn herio arweinwyr ar bob lefel i barhau i wneud eu gorau dros y bobl sy'n cael gofal. Mae'r sectorau hyn yn hanfodol i lwyddiant Cymru yn y dyfodol. Mae'r dylanwad a gânt ar fywydau pobl yn enfawr. I lawer, canlyniad cadarnhaol a gânt; mae'r gofal a'r cymorth a gânt o safon dda ac maent yn ffynnu oherwydd hynny. Fel arfer, mae profiadau negyddol pobl yn deillio o wasanaethau na ddarperir iddynt yn hytrach na'r rhai a ddarperir iddynt. Mae cryfder y gweithlu yn wyneb yr heriau a ddisgrifiwyd gennyf yn creu argraff arnaf dro ar ôl tro.

Y flwyddyn hon, gwelwyd y paratoadau terfynol ar gyfer cyflwyno graddau cyhoeddedig yn ein harolygiadau o gartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref. Gwnaethom adeiladu ar ein profiad o arolygu gwasanaethau gofal plant a chwarae lle mae'r graddau wedi'u cynnwys ers 2019. Yn hytrach na gweithio ar wahân, buom yn cydweithio'n agos â'r sector er mwyn dylunio system sydd â'r siawns orau o lwyddo i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny, eu gofalwyr a darparwyr gwasanaethau. Canlyniad hyn yw proses sydd wedi'i hadeiladu ar ddealltwriaeth o'r byd go iawn y sawl sy'n byw mewn gofal cymdeithasol ac yn gweithio yn y maes bob dydd, yn ogystal ag ar arbenigedd rheoleiddiol.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r rhai sydd wedi gweithio mewn partneriaeth â ni ar y datblygiad pwysig hwn. Mae wedi ein helpu i greu rhywbeth a fydd wir yn gwella canlyniadau i'r bobl sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hanfodol hyn.

Ni fydd graddau yn unig yn cyflawni'r gwelliannau rydym am eu gweld. Byddwn yn parhau i gydweithio â phawb sy'n ymwneud â gofal yng Nghymru, oherwydd partneriaethau a chynghreiriau sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau yn aml. Yn 2024-25, gwnaethom gwblhau ein rhaglen gyfredol o arolygiadau ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant. Rydym wedi bod yn gweithio gydag Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS). Gwnaethom gefnogi adolygiad AGIC o wasanaethau cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, gan weithio ochr yn ochr ag Estyn. Rydym hefyd yn parhau â'n harolygiadau ar y cyd ag Estyn, o leoliadau gofal plant ag elfen o addysg a ariennir.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Rydym am fodelu'r gwaith partneriaeth rydym yn disgwyl ei weld pan fyddwn yn cynnal ein harolygiadau a'n hadolygiadau. Gwyddom fod cyswllt uniongyrchol rhwng y gwerth a roddir ar y sawl sy'n gweithio mewn gofal ac ansawdd profiad y sawl sy'n cael gofal.

Rwy'n falch o'n gwaith ar y cyd â Gofal Cymdeithasol Cymru yn hyrwyddo diwylliannau cadarnhaol mewn gofal cymdeithasol.Rydym am wneud popeth o fewn ein gallu i rannu a hyrwyddo'r arferion rhagorol rydym yn ei weld yn ein gwaith. Mae lansiad ein gwefan ar gyfer ymarfer gwerth ei rannu yn dangos cynnydd sylweddol. Ar hyn o bryd, mae'n cynnwys enghreifftiau ysbrydoledig o'r sector gofal plant a chwarae, a chaiff enghreifftiau tebyg o'n harolygiadau o wasanaethau oedolion a phlant eu hychwanegu maes o law. Mae gan bob un ohonom sy'n rhan o wasanaethau gofal yng Nghymru gyfrifoldeb i ddysgu oddi wrth ein gilydd a gwella'n barhaus. Rhaid i hyn ddod yn ymarfer safonol, nid rhywbeth dewisol.

Pan fydd pethau'n mynd o chwith mewn gofal cymdeithasol a gofal plant, yn aml bydd hynny o ganlyniad i faterion sy'n gysylltiedig ag arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae hyn yn cynnwys diffyg trefniadau diogelu effeithiol a llai o ffocws ar hawliau a gwerth y bobl a wasanaethir. Fel yr esbonia'r adroddiad hwn, byddwn yn gweithredu pan fyddwn yn dod o hyd i arferion gwael er mwyn sicrhau diogelwch pobl. Mae hyn yn cynnwys cau gwasanaethau rheoleiddiedig a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud gwelliannau sylweddol.

I'r gwrthwyneb, yn amlach na pheidio, mae gan y gwasanaethau sy'n perfformio'n well arweinwyr sydd wedi'u cymell gan werthoedd cryf wedi'u gwreiddio mewn parch at y bobl sydd angen gofal a chymorth ynghyd ag ymrwymiad i gefnogi a datblygu staff.

Yn ddi-os, bydd y blynyddoedd nesaf yn parhau i herio pob un ohonom sy'n ymrwymedig i sicrhau gwelliant pellach mewn gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Bydd hefyd yn gyfnod o gyfleoedd – yn bennaf wrth gyflawni potensial anferth datblygiadau digidol i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. O'n rhan ni, rydym wedi disgrifio ein huchelgeisiau yn ein cynllun strategol newydd ar gyfer 2025-30, ag ymrwymiad i atgyfnerthu diogelwch ac ansawdd, cefnogi gwelliant ac ehangu ein dylanwad i wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Rwy'n ddiolchgar iawn am waith caled ac ymrwymiad pawb yn AGC sy'n gweithio'n ddiflino i gefnogi gwelliant parhaus ac i roi sicrwydd bod safonau gofal yn cael eu cyrraedd. Rwy'n hyderus y bydd cynnwys yr adroddiad hwn yn atgyfnerthu perthnasedd ac effaith ein gwaith.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r miloedd o bobl fedrus a llawn cymhelliant sy'n gweithio yn y gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio a'u harolygu. Diolch i chi y gallaf barhau i fod yn gadarnhaol am y dyfodol.



G. Baranski

**Gillian Baranski**
Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal Cymru

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**


Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

**Trosolwg o'n sefydliad**

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn


**Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd**
2024-2025

# Trosolwg o'n sefydliad

## Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Ni yw Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru. Rydym yn cyfrannu at wella gofal ar lefel unigol, ar lefel gwasanaeth, ac ar lefel sector.


## Gwasanaethau a gaiff eu cofrestru a'u harolygu gennym:

- Gwasanaethau cartrefi gofal (oedolion a phlant)
- Gwasanaethau cymorth cartref
- Gwasanaethau lleoli oedolion
- Gwasanaethau llety diogel
- Gwasanaethau maethu
- Gwasanaethau mabwysiadu
- Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- Gwasanaethau eirioli
- Gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd
- Ysgolion arbennig preswyl

## Rydym hefyd yn arolygu'r canlynol:

- Ysgolion preswyl
- Colegau addysg bellach sy'n lletya myfyrwyr dan 18 oed
- Gwasanaethau maethu a mabwysiadu awdurdodau lleol

Rydym yn adolygu'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn cefnogi ac yn cyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol drwy amrywiaeth o weithgareddau adolygu perfformiad, gan gynnwys arolygu. Ein nod yw cydweithio ag awdurdodau lleol i'w helpu i ddysgu a gwella'n barhaus.



Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**


Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

**Trosolwg o'n sefydliad**

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn




# Trosolwg o'n sefydliad

## Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd craidd yn sicrhau bod pobl wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn cydnabod pa mor hollbwysig yw sicrhau bod y rhain yn cael eu dangos yn ein gwaith pob dydd.




## Ein hegwyddorion arweiniol

Mae'r egwyddorion canlynol yn llywio ein gwaith, yn unol â'r gwerthoedd canlynol.

- **Rhoi pobl yn gyntaf**
- **Gweithredu ar sail gwybodaeth**
- **Bod yn ymatebol ac yn seiliedig ar risg**
- **Cydweithio**
- **Cefnogi gwelliannau ac arloesi**
- **Myfyrio a dysgu**

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

**Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025**

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau


Rhowch wybod i ni beth yw eich barn

# Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Roedd y flwyddyn hon yn nodi diwedd ein cynllun strategol ar gyfer 2020-2025. Rydym yn cydweithio â'n rhanddeiliaid ar ein cynllun nesaf a gaiff ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2025. Bydd hwn yn pennu tri uchelgais AGC i 'Rhoi Sicrwydd, Gwella a Dylanwadu'.

Mae'n amserol yma i fyfyrio ar y cynnydd a wnaed gennym dros y pum mlynedd diwethaf.

## Ein tair blaenoriaeth strategol ar gyfer 2020-2025 oedd:






Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

**Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025**

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Gwnaethom nodi camau gweithredu i fynd i'r afael â phob blaenoriaeth ac mae'n bleser gennym nodi ein bod wedi cyflawni 23 allan o 26 o'n camau gweithredu. Rydym wedi tynnu sylw at rai o'n cyflawniadau gan ganolbwyntio ar y meysydd hynny o'n gwaith sy'n hanfodol ond a all osgoi sylw.

## Hyrwyddo'r defnydd o'n gwasanaethau ar-lein (AGC Ar-lein) i'w gwneud yn haws i ddarparwyr weithio gyda ni ac adolygu ein cynllun digidol a'n prosesau i ddarparu gwasanaethau prydlon ac effeithiol

Rydym yn arbennig o falch o'n datblygiadau digidol arloesol sydd wedi galluogi AGC a'r gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru â ni i gydweithio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.

Rydym wedi ehangu ar y nodweddion sydd ar gael yn ein gwasanaeth AGC Ar-lein a ddefnyddir gan ddarparwyr cofrestredig a'r sawl sy'n gwneud cais i gofrestru â ni, gan sicrhau y gellir diweddaru gwybodaeth allweddol am y gwasanaeth mewn amser real gan ddarparwyr.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi ein hoffer data ar-lein fel bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd i ddarparwyr, gwneuthurwyr polisïau a chomisiynwyr gwasanaethau i lywio prosesau cynllunio a datblygu gwasanaethau.

Rydym wedi llunio cyfeiriadur gwasanaethau newydd sy'n ei gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i wybodaeth am wasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant. Erbyn hyn, gall pobl wneud y canlynol:

- Tanysgrifio i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaethau y maent am eu dilyn
- Lawrlwytho copi o'n cofrestr o wasanaethau
- Rhoi adborth am wasanaeth
- Rhannu pryderon â ni yn gyflym ac yn rhwydd
- Gweld gwybodaeth bwysig fel cipolwg ar y graddau diweddaraf

## Datblygu ein system pwyntiau cyswllt cyntaf er mwyn gwella effeithiolrwydd ein gwasanaethau i gwsmeriaid

Gwnaethom ailddylunio ein swyddogaeth cymorth busnes i ymateb yn gyflymach ac i ddarparu gwasanaeth gwell. Gwnaethom atgyfnerthu ein pwynt cyswllt cyntaf, a'r flwyddyn hon, llwyddodd ein tîm bach ond effeithlon i ddelio â 10,447 o alwadau a mwy na 60,000 o negeseuon e-bost.

## Hyrwyddo dulliau gweithredu cadarnhaol mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn sicrhau bod AGC yn lle gwych i weithio ynddo

Ym mis Mai 2024, gwnaethom weithio gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) i lansio ein strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar y cyd ar gyfer 2024-28. Mae'r strategaeth hon yn nodi'r ffordd y bydd yr arolygwyr yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a mynediad anghyfartal at wasanaethau iechyd, cymdeithasol a gofal plant o ansawdd da ledled Cymru.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

**Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025**

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Fel arolygwyr a rheoleiddwyr, byddwn yn gwneud y canlynol;

**Cryfhau'r ffocws ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gwaith a lle byddwn yn dod o hyd i anghydraddoldebau, byddwn yn eu herio ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt.**

- Byddwn yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o'n gwaith, er mwyn ysgogi gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant i bobl sy'n rhannu un o'r nodweddion gwarchodedig neu fwy.

**Gwella ein gwaith ymgysylltu â chymunedau amrywiol, er mwyn rhoi llais cryf iddynt a'r gallu i ddylanwadu ar ein gwaith.**

- Byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o brofiadau pobl sy'n rhannu un o'r nodweddion gwarchodedig neu fwy er mwyn llywio'r penderfyniadau a wnawn.

**Datblygu ein sefydliadau er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysol ac yn gynrychioladol. Byddwn yn creu gweithlu mwy amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.**

- Byddwn yn helpu aelodau ein gweithlu i ddatblygu a ffynnu, ni waeth beth fo'u cefndir, a hynny mewn gweithleoedd teg a chynhwysol.
- Byddwn yn buddsoddi er mwyn datblygu sgiliau a gwybodaeth ein staff a chreu diwylliannau dysgu i'n galluogi i werthuso a herio ein dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Rydym hefyd yn awyddus i hyrwyddo a rhannu ymarfer cadarnhaol a welwn yn ystod ein harolygiadau. Dyma ddwy enghraifft:

**Ymarfer cadarnhaol mewn gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc**

Rydym wedi gweld enghreifftiau ardderchog o wasanaethau yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Daeth person ifanc i mewn i ofal am ei fod wedi cael ei wrthod gan ei deulu a'i gymuned oherwydd ei hunaniaeth rhywedd a'i rywioldeb.

Roedd y gwasanaeth yn hyrwyddo tegwch drwy deilwra ei ddull gweithredu i ddiwallu anghenion penodol y person ifanc, yn hytrach na chymhwyso un dull sy'n addas i bawb. Roedd yn atgyfnerthu hawl y person ifanc i wneud dewisiadau personol ac i gyfleu pwy ydyw yn gyson. Roedd y staff yn annog cynhwysiant drwy nodi a chynnig mynediad i glybiau LHDTCA+ a gwahodd Hyrwyddwyr LHDTCA+ y sefydliad i ymweld â'r cartref, gan alluogi'r person ifanc i archwilio'n agored a thrafod profiadau fel rhan o'r gymuned LHDTCA+. Roedd y camau gweithredu hyn yn dangos ymrwymiad clir i ymarfer cynhwysol ac yn rhoi lle diogel i'r person ifanc archwilio ei hunaniaeth.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

**Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025**

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

## Ymarfer cadarnhaol wrth gefnogi plant amlieithog mewn amgylchedd cynhwysol

Mae gwarchodwr plant yng Nghaerdydd wedi datblygu dull arbenigol o gefnogi plant o gefndiroedd ieithyddol amrywiol. Ar ôl cydnabod yr angen cynyddol, buddsoddodd mewn hyfforddiant 'Saesneg fel Iaith Ychwanegol' i wella ei hymarfer.

Mae bellach yn cynnig gofal wedi'i bersonoli sy'n dathlu treftadaeth ddiwylliannol plant wrth feithrin eu sgiliau ieithyddol. Dywedodd un rhiant: "Rydym yn hoff iawn o'r ffordd y mae'n gallu teilwra'r gweithgareddau at anghenion a diddordebau ein merch, ond gan ei haddysgu am ddathliadau diwylliannol byd-eang ar yr un pryd."

Mae ei gwaith yn dangos sut y gall ymarferwyr y blynyddoedd cynnar greu amgylcheddau cynhwysol lle mae plant amlieithog yn ffynnu drwy gael sylw unigol a gofal sy'n ymateb i ddiwylliant.

## Datblygu ein dull o gydweithio a chynnal arolygiadau ymhellach er mwyn cefnogi gwelliannau

Rydym yn ymrwymedig i raglen o arolygiadau ar y cyd gydag AGIC yn adolygu timau cymunedol yn benodol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ac ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl. Mae gennym raglen hirsefydlog hefyd o arolygiadau ag Estyn ar gyfer ein gwasanaethau gofal plant a chwarae. Yn ogystal, buom yn gweithio gydag Estyn, AGIC a HMICFRS ar gyfres o arolygiadau ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant dros y pum mlynedd diwethaf, gan lunio adroddiad trosolwg o'n canfyddiadau ym mis Medi 2024.



Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

**Ymgysylltu â phobl**

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Ymgysylltu â phobl

Rhoi pobl yn gyntaf yw un o'n prif egwyddorion, gan sicrhau bod llais a llesiant pobl wrth wraidd ein gwaith, a ategir gan ddull seiliedig ar hawliau.

## Ein Bwrdd Cynghori Cenedlaethol

Mae ein Bwrdd Cynghori Cenedlaethol yn cyfrannu'n helaeth at lunio ein gwaith.

## Myfyrdodau gan Dr Ruth Hussey (CB, OBE, DL), Cadeirydd y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol



Pleser o'r mwyaf yw bod yn Gadeirydd y Bwrdd Cynghori ar gyfer Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), rôl a gymerais ym mis Ionawr 2020.

Dros y pum mlynedd diwethaf mae llawer o bethau wedi newid ac mae'r Bwrdd Cynghori, ynghyd ag AGC, wedi addasu ac ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r sector.

Drwy'r hyn rydym yn ei glywed a'i drafod yn y Bwrdd Cynghori, mae'n amlwg bod dull gweithredu AGC yn rhoi pobl wrth wraidd popeth a wna. P'un a yw hynny'n llais rhywun sy'n cael gofal, gweithiwr gofal ymroddedig, darparwr gwasanaeth, awdurdod lleol neu elusen sy'n gwneud eu gorau mewn amgylchiadau anodd.

Mae'r pwyslais bob amser ar wrando ar ein gilydd a dysgu oddi wrth ein gilydd.

Mae gennym adran o'r cyfarfod a elwir yn 'Lleisiau o'r sector' lle rydym yn trafod adborth ar faterion sy'n peri pryder neu bethau sy'n mynd yn dda!

Cafwyd sawl achlysur yn y Bwrdd Cynghori lle clywsom gyfraniadau pwerus sydd wedi ein synnu a gwneud i ni feddwl am y goblygiadau ar gyfer y system ofal – enghreifftiau o brofiad bywyd a all gael effaith sylweddol ar bolisi ac ymarfer.

Gan ddefnyddio'r adborth hwnnw, yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd Cynghori wedi bod yn rhan weithredol o'r gwaith o ddatblygu strategaeth pum mlynedd nesaf AGC. Cawsom y fraint o weld lefel y meddwl a'r uniondeb sydd wedi mynd i lunio'r cyfeiriad strategol hwn yn uniongyrchol.

Mae'n adeiladu ar ddiben craidd AGC fel rheoleiddiwr i gadw pobl yn ddiogel ac i wella ansawdd a phrofiad gofal, ond mae'n gwneud hynny â dealltwriaeth ddofn o heriau a chyfleoedd y dyfodol.

Hoffwn ddiolch i Gillian Baranski a'i thîm arwain sydd wedi ymgysylltu â'r Bwrdd Cynghori mewn modd adeiladol ac ystyrlon. Mae aelodau'r Bwrdd wedi cyfrannu amrywiaeth eang o safbwyntiau, profiad a her sydd wedi bod yn bwysig i AGC, ac rwy'n ddiolchgar iawn i aelodau'r Bwrdd am eu hamser, eu gwybodaeth a'u harbenigedd.

Mewn gwasanaethau gofal, yr hyn sy'n bwysig yw sut mae pobl yn teimlo – eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu, eu bod yn ddiogel ac yn cael eu clywed. Dyma ein profiad fel Bwrdd Cynghori.

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**


Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

**Ymgysylltu â phobl**

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn




# Ymgysylltu â phobl

## Ymgysylltu â darparwyr a gweithwyr proffesiynol

Dyma gipolwg ar rai o'r gweithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd gennym y flwyddyn hon:

Gwnaethom gynnal 15 o ddigwyddiadau darparwyr ar-lein yn ystod 2024/25 a ddenodd fwy na 1600 o bobl o bob rhan o'r gwasanaeth gofal plant a chwarae a'r gwasanaeth oedolion a phlant.



Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol:

*"Trefnus iawn ac roedd hi'n hyfryd cael gwybod yn uniongyrchol gan yr arolygwyr beth maen nhw'n chwilio amdano ac rwy'n hoffi'r syniad o'r cyfarfodydd ansawdd rhwng arolygiadau. Rwy'n credu bod digwyddiadau rheolaidd yn cael gwared ar y stigma sy'n gysylltiedig â'r gair arolygydd – ein nod cyffredin bob amser fu canolbwyntio ar les pennaf y plant, neu fydden ni ddim yn gwneud y swyddi rydyn ni'n eu gwneud. Diolch"*

*"O fynychu'r gynhadledd gyntaf, mae'n rhaid dweud bod y noson hon yn llawn gwybodaeth. Roedd yn ffordd wych o glywed am wahanol arferion ledled Cymru ac enghreifftiau o'r hyn y gallwn ei roi ar waith yn ein lleoliadau".*

*"Roeddwn wrth fy modd. Roedd hi'n wych meithrin cydberthynas ag AGC fel partneriaid proffesiynol. Daliwch ati".*

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

**Ymgysylltu â phobl**

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Ymgysylltu â phobl

### Cydgynhyrchu ein dull o gyflwyno graddau ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref

Yn dilyn adolygiad annibynnol o raddau 'mud', roedd y tîm graddau yn wynebu dwy her: cyflwyno graddau cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau ledled Cymru ynghyd â newid ffordd o feddwl y sawl sy'n rheoli'r gwasanaethau hyn, yn gweithio ynddynt ac yn eu harolygu.

Roedd ymgysylltu effeithiol yn hanfodol er mwyn llwyddo. Roedd angen i ddarparwyr gofal ac arolygwyr gael mewnbwn dilys wrth lunio'r system graddau.

Gwnaethom sefydlu tri grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaethol i randdeiliaid ar 'thema' a ail-luniodd y fframwaith graddau newydd, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu ein cynllun a'n negeseuon cysylltiadau ac ymgysylltu a datblygu cynllun hyfforddiant cynhwysol.

*"Diolch am ein cynnwys ar y daith hon – mae wedi bod yn ddiddorol ac yn rhywbeth newydd."*

*"Mae AGC wedi bod yn rhagweithiol iawn wrth adolygu'r graddau a'u rhoi ar waith ac o ran y diweddariadau mewn perthynas â'r llinellau ymholi. Mae'r Canllawiau ar y Fframwaith Arolygu yn ddefnyddiol iawn, ac rwy'n teimlo bod y disgrifyddion a'r llinellau ymholi yn llawer haws i'w deall."*

## Casglu adborth

Rydym yn ceisio datblygu ffyrdd arloesol o sicrhau bod pob agwedd ar ein gwaith yn cael ei llywio gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant ac yn gweithio ynddynt. Rydym bob amser yn siarad â phobl yn ystod ein gweithgarwch arolygu. Y flwyddyn hon, gwnaethom wella'r arolwg ar ein gwefan i'w gwneud yn haws i bobl roi adborth am wasanaethau, er ein bod yn cydnabod na fydd yn addas i bawb. Gallwch weld y cwestiynau a ofynnwn yma ac rydym yn eich annog i rannu unrhyw adborth am wasanaethau â ni.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

**Ymgysylltu â phobl**

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Ymgysylltu â phobl

Rydym yn gwerthfawrogi adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, aelodau o deulu, staff a gweithwyr proffesiynol eraill ac rydym yn defnyddio hyn i lywio ein gwaith o gynllunio arolygiadau.

**Y flwyddyn hon, daeth 6,995 o arolygon adborth wedi'u cwblhau i law am wasanaethau cofrestredig fel a ganlyn:**

- **588** gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau
- **2213** gan berthnasau/gofalwyr/ffrindiau
- **3980** gan staff
- **214** gan weithwyr proffesiynol sy'n rhan o wasanaeth

**Cawsom 1492 o ymatebion i'n harolygon am wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol hefyd:**

- **108** gan randdeiliaid / gweithwyr proffesiynol eraill
- **898** gan staff
- **486** gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau (gan gynnwys gofalwyr)

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

**Ymgysylltu â phobl**

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Ymgysylltu â phobl

Gwnaethom ofyn i'r staff a fyddent yn argymell y gwasanaeth y maent yn gweithio ynddo i ffrind neu aelod o'r teulu ac a fyddent yn argymell gweithio yma.

Dyma flas o'r adborth a gawsom:

*"Byddwn yn fwy na pharod i argymell y gwasanaeth hwn i ffrind neu berthynas gan fy mod yn teimlo ein bod yn gofalu am ddefnyddwyr y gwasanaeth nad ydynt yn deulu ac yn ffrindiau yn yr union ffordd y byddem am i'n teulu a'n ffrindiau gael gofal."*

---

*"Rwy'n teimlo bod gennym dîm anhygoel o weithwyr cymdeithasol goruchwyliol a rheolwr sy'n gwneud yn siŵr bob dydd fod gan bob gofalwr maeth a phob plentyn bopeth sydd ei angen arnyn nhw. Mae ein gofalwyr maeth yn ysbrydoledig, rwy'n teimlo fy mod yn dysgu cymaint bob dydd."*

---

*"Mae sawl ffactor sy'n dylanwadu ar fy mhenderfyniad i argymell gweithio mewn cartref preswyl i bobl ifanc. Yn gyntaf, mae'r cyfle i wneud gwahaniaeth ystyrlon i fywydau unigolion ifanc yn gymhelliad sylweddol, ochr yn ochr â'r ymdeimlad o gymuned o fewn cartref preswyl. Mae gweithio yn y maes hwn hefyd yn cynnig cyfle i feithrin sgiliau gwerthfawr fel empathi, cyfathrebu a datrys problemau, sy'n berthnasol i sawl maes bywyd. Yn olaf, gall y profiadau a'r heriau amrywiol a wynebir mewn cartref preswyl arwain at ddealltwriaeth ddyfnach o'r materion sy'n effeithio ar bobl ifanc a chymlethdodau eu bywydau. Yn gyffredinol, mae'r ffactorau hyn yn cyfuno i greu achos cymhellol dros argymell gyrfa mewn cartref preswyl i bobl ifanc."*

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**


Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

**Ymgysylltu â phobl**

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn




# Ymgysylltu â phobl

Adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd:

*"Pan gefais wybod bod fy ŵyr yn symud i gartref preswyl, roedd yn ergyd drom, ond dyma'r peth gorau a allai fod wedi digwydd iddo. Mae wedi pwyllo, mae'n hapus ac mae'n dwli ar y staff. Rwy'n teimlo eu bod wir yn ei ddeall. Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghynnwys ac rwy'n gwybod ei fod yn cael y gofal gorau. Alla i ddim diolch digon iddynt – tîm hollol wych"*

---

*"Mae ein gweithiwr cymdeithasol bob amser wedi gwrando ar ein safbwyntiau ac wedi dangos dealltwriaeth ac empathi tuag at ein sefyllfa."*

---

*"Mae'r plant i gyd yn hapus ac yn ddiogel yn y feithrinfa. Mae fy mhlentyn wedi meithrin cydberthnasau rhagorol â'r merched sy'n gofalu amdani ac mae wir yn mwynhau mynd i'r feithrinfa".*

---

*"Mae fy mab wrth ei fodd yn dod i'r clwb ar ôl ysgol. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau i'r plant gymryd rhan ynddynt ac mae'r staff yn gyfeillgar, yn wybodus ac yn frwdfrydig. Mae'n lle ardderchog."*

---

*"Mae aelodau unigol o'r staff yn mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau sy'n rhoi tawelwch meddwl pan fydd eich anwylyd mewn cartref gofal."*

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

**Ymgysylltu â phobl**

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Ymgysylltu â phobl

## Ystyried ffyrdd newydd o wrando a dysgu

Rydym yn dal i ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar ymchwil, a elwir yn SOFI, yn ystod ein harolygiadau i arsylwi ar ansawdd y rhyngweithio rhwng pobl sy'n defnyddio gwasanaethau ac yn gweithio ynddynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae'n bosibl na fydd pobl yn gallu rhannu eu safbwyntiau â ni.

Er mwyn gwella ein dulliau ymgysylltu, y flwyddyn hon gwnaethom dreialu dull newydd mewn deg ardal awdurdod lleol. Yn hytrach na dim ond casglu adborth yn ystod arolygiadau ffurfiol, gwnaethom drefnu sesiynau i siarad yn uniongyrchol â phobl sy'n cael gofal a chymorth, ynghyd â staff a rhanddeiliaid sy'n rhan o ddarparu gwasanaethau, am faterion penodol yn y sir honno.

Mae'r peilot hwn wedi gwella ein gallu i glywed gan bobl ledled Cymru. Mae'r wybodaeth a gasglwyd gennym wedi ein helpu i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau'n cyflawni ac yn hyrwyddo llesiant pobl. Yn bwysig, mae'r awdurdodau lleol dan sylw wedi defnyddio'r wybodaeth hon i wella a datblygu eu gwasanaethau ymhellach.

Mae cyfranogwyr wedi dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r dull cydweithredol hwn ag AGC, sy'n teimlo'n wahanol i'r broses arolygu draddodiadol.

Gwnaethom atgyfnerthu ein dull o gydweithio ag awdurdodau lleol drwy ein Rhaglen i Arolygwyr Cymheiriaid ac mae pedwar arolygydd cymheiriaid wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau arolygu hyd yma. Mae eu harbenigedd a'u henghreifftiau o arferion gorau o'r byd go iawn wedi gwella ansawdd a dyfnder ein harolygiadau.

Disgrifiodd arolygwyr cymheiriaid y profiad fel un ymdrochol a wnaeth eu cyfoethogi'n broffesiynol. Mae'r dull cydweithredol hwn wedi trawsnewid arolygiadau o fod yn weithgarwch goruchwylio yn unig i fod yn bartneriaethau gwirioneddol, gan greu diwylliant o ddysgu a rennir a gwelliant parhaus.

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

**Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru**

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn – mae'n rhan o'n cynllun strategol. Er mwyn llywio'r gwaith hwn, rydym wedi sefydlu grŵp Hyrwyddwyr y Gymraeg sy'n llywio ein hymdrechion o fewn AGC ac yn ystod arolygiadau.

Pan fyddwn yn arolygu, rydym bellach yn ystyried sut mae sefydliadau'n hyrwyddo diwylliant Cymru ynghyd â'u cynnig rhagweithiol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg. Rydym yn sicrhau y gellir cynnal ein harolygiadau ein hunain yn Gymraeg pan fydd angen. Rydym hefyd yn helpu ein staff i ddysgu Cymraeg, i ymarfer yr iaith ac i gofleidio diwylliant Cymru.

Gellir gweld proffil gwasanaethau Cymraeg ledled Cymru fesul sir yn ein hoffer data ar-lein yma.

Rydym wedi gweld enghreifftiau cadarnhaol o wasanaethau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Yn ein harolygiadau o awdurdodau lleol, rydym wedi gweld pobl sy'n cael gofal yn cael 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer siarad â phobl yn Gymraeg; ac mae hyn yn cael ei ymestyn i'r staff hefyd.

## Ymarfer cadarnhaol mewn cartrefi gofal

Nododd un cartref gofal mai'r Gymraeg yw mamiaith 75% o'r preswylwyr. Mewn ymateb, dechreuodd staff gofal a nyrsio o ddeg gwlad wahanol ddysgu Cymraeg. Mae'r gwasanaeth yn darparu gweithgareddau hamdden bob dydd yn y Gymraeg a chynhelir gwasanaeth capel Cymraeg ar y Sul i'r preswylwyr bob wythnos. Mae'r gwasanaeth hefyd yn sicrhau bod digwyddiadau diwylliannol fel yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd ar gael i'r preswylwyr eu gwylio / gwrando arnynt.

Gwelsom fod gwasanaeth arall wedi cynnal dadansoddiad llawn o sgiliau Cymraeg y staff ac wedi nodi'r holl breswylwyr ac ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg. Mewn ymateb, mae adnoddau bellach ar gael i helpu'r staff i ddysgu Cymraeg. Mae gwybodaeth wedi'i gosod o amgylch y cartref sy'n cynnwys ymadroddion defnyddiol a ffeithiau diddorol am Gymru a'r Gymraeg a chaiff y staff eu hannog i gwblhau cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae gan y gwasanaeth wefan ddwyieithog hefyd.

Mae mwy i'w wneud i ni sicrhau ein bod yn nodi ac yn rhannu'r hyn a ddysgwyd o'n gweithgarwch arolygu. Byddwn yn parhau i bwysleisio pa mor hollbwysig ydyw bod pob gwasanaeth yn cymryd camau gweithredol i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan dynnu sylw at enghreifftiau o ymarfer cadarnhaol neu lle mae lle i wella.

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**


Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn


# Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

**Mae'r bennod hon yn amlinellu ein gweithgareddau craidd wrth roi sicrwydd a chefnogi gwelliant dros dri sector:**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae



Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- **Gofal cymdeithasol i oedolion**
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gofal cymdeithasol i oedolion

## Proffil gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru â ni ar 31 Mawrth 2025

| Nifer y gwasanaethau i oedolion ar 31/3/2025 | |
|---|---|
| Gwasanaeth cartref gofal i oedolion a phlant | 18 |
| Gwasanaeth cartref gofal i oedolion | 1,018 |
| Gwasanaeth lleoli oedolion | 8 |
| Gwasanaeth cymorth cartref | 750 |
| **Cyfanswm** | **1,794** |

Mae nifer y cartrefi gofal i oedolion sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru wedi gostwng dros amser. Mae hyn yn adlewyrchu dull Cymru o alluogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyhyd â phosibl. Mae dau ddatblygiad allweddol wedi cefnogi'r newid hwn; ehangu gwasanaethau cymorth cartref a thwf tai â chymorth (a elwir hefyd yn ofal ychwanegol).

Cynyddodd nifer y cynlluniau tai gofal ychwanegol yng Nghymru o 37 yn 2014 i 57 yn 2024. Ym mis Mawrth 2024, roedd y cynlluniau hyn yn darparu 2,510 o fflatiau ledled Cymru (ffynhonnell: arolwg y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol).

## Gwasanaethau cymorth cartref

Mae'r duedd gyffredinol o ran cynnydd yn nifer y gwasanaethau cymorth cartref dros amser yn parhau. Y flwyddyn hon, gwelwyd cynnydd o 7.9%, gan ychwanegu 55 o wasanaethau newydd ledled Cymru.

Rydym yn ymwybodol y gall fod gormod o gymorth cartref mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol, a all effeithio'n andwyol ar gynaliadwyedd ariannol rhai darparwyr. Er, dim ond dau o'r 32 o wasanaethau a ganslodd eu cofrestriad y flwyddyn hon a nododd mai cyllid oedd y rheswm dros hyn.

I'r gwrthwyneb, mewn rhai siroedd gwledig, mae comisiynwyr wedi nodi diffyg darpariaeth. Mae hyn yn effeithio ar y cyfnod o amser y mae'n rhaid i rai pobl aros i gael gwasanaeth. Er mwyn atal hyn a rhoi mwy o ddewis i bobl, mae sawl awdurdod lleol yn cefnogi'r broses o ddatblygu mentrau micro-ofal lle mae pobl unigol neu fusnesau bach (micro) yn darparu gwasanaethau gofal, cymorth neu lesiant i lai na phum person. Gall hyn gynnwys gofal personol, seibiant, tasgau domestig a chwmnïaeth.

Mae'r broses o ddatblygu micro-ofal yn adlewyrchu nod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i hyrwyddo llais a rheolaeth a chefnogi'r broses o ddatblygu menter gymdeithasol. Fodd bynnag, ni ragwelwyd twf y gwasanaethau hyn pan gyflwynwyd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn 2016 ac mae adroddiad diweddar gwasanaethau micro-ofal: adroddiad ymgysylltu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn tynnu sylw at gymhlethdodau cael rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer mathau bach iawn ac anffurfiol o ddarpariaeth gofal, wedi'u cydbwyso â'r angen i sicrhau fframwaith rheoleiddio cadarn. Rydym yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i ystyried hyn ymhellach.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- **Gofal cymdeithasol i oedolion**
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant


Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn

# Gofal cymdeithasol i oedolion

Rydym hefyd wedi arsylwi ar gynnydd yn y ceisiadau o ansawdd isel a gyflwynir ar gyfer cofrestru gwasanaethau cymorth cartref.

Mae'r ceisiadau hyn yn bennaf yn dangos diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o weithredu gwasanaeth cymorth cartref yng Nghymru.




## Cartrefi gofal

Mae nifer y lleoedd mewn cartrefi gofal wedi gostwng 1,027 dros y degawd diwethaf, ac amcangyfrifir bod y boblogaeth o bobl hŷn wedi cynyddu 11.5% o 2013 i 2023. Mae'r duedd hon yn amrywio rhwng cartrefi gofal sy'n darparu gofal nyrsio a'r rhai sy'n darparu gofal personol yn unig.


Fel y dangosir yn y graffiau isod, mae nifer y cartrefi gofal heb ofal nyrsio wedi gostwng yn sylweddol. Mae 68 yn llai o'r cartrefi hyn, sy'n darparu 1,475 yn llai o leoedd o gymharu â 2015.

I'r gwrthwyneb, er bod 18 yn llai o gartrefi gofal â gofal nyrsio, maent bellach yn darparu 448 yn fwy o leoedd i gyd.

Gall y patrwm hwn adlewyrchu'r polisi o gefnogi pobl i fyw gartref am gyhyd â phosibl. Pan fydd angen gofal preswyl ar bobl, yn aml mae angen gofal nyrsio arnynt oherwydd bregusrwydd cynyddol.

Cynyddodd nifer y lleoedd mewn cartrefi gofal â gofal nyrsio yn raddol rhwng 2015 a 2022, ond maent wedi gostwng 5% (571 o leoedd) ers hynny. Yn ystod y cyfnod hwn, rhoddodd saith cartref gofal y gorau i ddarparu gofal nyrsio ond gwnaethant barhau i weithredu fel cartrefi gofal.

Mae comisiynwyr ledled Cymru yn nodi bod cyfradd preswylwyr o 90% mewn cartrefi gofal ar gyfartaledd. Fodd bynnag, ceir amrywiadau lleol, gan gynnwys gwahaniaethau yn y cyfnod y mae'n rhaid i bobl aros i symud i mewn i gartrefi gofal. Mae'r mater cymhleth hwn yn dibynnu ar ffactorau fel dewisiadau pobl, costau ac argaeledd gwasanaethau arbenigol.



Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o’n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo’r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- **Gofal cymdeithasol i oedolion**
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae


Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn

# Gofal cymdeithasol i oedolion




Y flwyddyn hon, canslodd 63 o wasanaethau cartrefi gofal eu cofrestriad, a throsglwyddodd 42 o’r rhain i ddarparwr arall.

## Yr hyn a wnaethom


| Nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd | 2024/25 |
|---|---|
| Gwasanaeth cartref gofal i oedolion a phlant | 9 |
| Gwasanaeth cartref gofal i oedolion | 716 |
| Gwasanaeth lleoli oedolion | 3 |
| Gwasanaeth cymorth cartref | 359 |
| **Cyfanswm** | **1,087** |

Gwnaethom gynnal 10% yn llai o arolygiadau o gymharu â’r flwyddyn flaenorol, yn bennaf am fod arolygiadau arferol wedi cael eu hatal yn ystod mis Mawrth 2025 i baratoi arolygwyr i roi system graddau cyhoeddedig ar waith. Rydym wrthi’n llenwi sawl swydd wag i arolygwyr ar hyn o bryd sydd hefyd wedi effeithio ar y lefelau arolygu.

## Ymateb i bryderon

Rydym yn gwerthfawrogi pan fydd pobl yn rhannu eu pryderon â ni gan ei fod yn ein helpu ni i ddeall a yw’r bobl sy’n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu cefnogi i gyflawni’r canlyniadau gorau posibl neu a ydynt yn wynebu risg neu’n profi niwed.

1587 o bryderon gan gynnwys:



Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- **Gofal cymdeithasol i oedolion**
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gofal cymdeithasol i oedolion

Roedd y prif bryderon ynghylch gwasanaethau cofrestredig yn ymwneud ag arweinyddiaeth a rheolaeth, sy'n adlewyrchu'r hyn a welwn yn ein harolygiadau.

Mae'r staff yn codi llais am broblemau a daeth 23% o'r pryderon (367) gan staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal. Rydym o'r farn ei bod yn gadarnhaol bod staff yn codi pryderon. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i ddarparwyr greu diwylliant o fod yn agored, yn onest ac yn dryloyw ar bob lefel. Dylai staff deimlo'n ddiogel i rannu pryderon a bod yn hyderus y bydd rhywun yn gwrando arnynt.

Daeth 26 o bryderon i law ynghylch gwahaniaethu y flwyddyn hon, o gymharu ag 20 y flwyddyn diwethaf. Er mai cynnydd bach yw hwn, daeth y pryderon hyn yn bennaf gan staff oedd o'r farn eu bod yn cael eu trin yn annheg. Er na allwn gymryd rhan mewn anghydfodau cyflogaeth, gall pryderon ynghylch gwahaniaethu ddynodi problemau ehangach o ran diwylliant gwasanaeth. Pan fydd staff yn gweithio mewn amgylchedd cynhwysol a chefnogol lle maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, gallant wneud eu gwaith gorau. Mae'r diwylliant cefnogol hwn yn hanfodol ar gyfer darparu gofal da.

Rydym yn ystyried pob pryder a rennir â ni a'r flwyddyn hon gwnaethom ymateb i bryderon ynghylch gwasanaethau cofrestredig fel y dangosir ar y dde:

| | |
|---|---|
| **40% (595)** | wedi'u hatgyfeirio at y darparwr i ymchwilio iddynt |
| **28% (416)** | wedi'u rhannu ag asiantaethau partner gan gynnwys timau diogelu |
| **8% (115)** | wedi arwain at gynnal arolygiad yn gynnar |
| **7% (111)** | wedi cyfeirio'r unigolyn sy'n codi'r pryder at asiantaethau eraill |
| **33% (501)** | heb fod angen unrhyw gamau gweithredu ar unwaith |

**Dylid nodi, mae rhai pryderon yn arwain at fwy nag un cam gweithredu.**

Arolygwyd 90 o gartrefi gofal a 26 o wasanaethau cymorth cartref y flwyddyn hon o ganlyniad uniongyrchol i bryderon a godwyd gyda ni.

Lle rydym yn asesu nad oes angen cymryd 'unrhyw gamau gweithredu ar unwaith' mewn perthynas â phryderon, rydym wedi cynnal ymholiadau ac wedi penderfynu nad oes angen i AGC gymryd unrhyw gamau pellach ar yr adeg hon.

Mae'r prif bryder y mae pobl yn ei rannu â ni ynghylch gwasanaethau awdurdodau lleol i oedolion yn ymwneud ag ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom adolygu pob pryder a chymryd camau priodol. Roedd hyn yn cynnwys rhoi cyngor ac

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- **Gofal cymdeithasol i oedolion**
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau


Rhowch wybod i ni beth yw eich barn

arweiniad ysgrifenedig, cynnal sgyrsiau dilynol i gael rhagor o wybodaeth neu rannu pryderon ag uwch-reolwyr perthnasol yn yr awdurdod lleol (gyda chydsyniad).

## Adolygu hysbysiadau

Bob blwyddyn, rydym yn cael nifer mawr o hysbysiadau i'w hadolygu a'u dadansoddi er mwyn llywio ein gwaith cynllunio arolygiadau.

26107 o hysbysiadau gan gynnwys:




Rydym yn ystyried pob hysbysiad ynghylch honiad o gamdriniaeth yn ofalus er mwyn penderfynu ar ein camau nesaf. Gall hyn gynnwys gwneud atgyfeiriad diogelwch at yr awdurdod lleol perthnasol, cysylltu a thrafod â'r rhai hynny sy'n comisiynu gofal, neu drafod yn uniongyrchol â'r darparwr. Mae llawer o'r hysbysiadau am honiadau o gamdriniaeth yn cynnwys digwyddiadau rhwng pobl sy'n byw yn yr un cartref gofal. Er ein bod yn cymryd y rhain o ddifrif, yn aml gallwn eu datrys drwy drafod â'r darparwr pa gamau y mae'n eu cymryd i leihau'r risgiau i'r preswylwyr.

## Yr hyn a nodwyd gennym

Fel y nodwyd gennym y flwyddyn diwethaf, ym mis Mehefin 2023 gwnaethom ddechrau treialu graddau mud ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref. Y flwyddyn hon, gwnaethom gomisiynu gwerthusiad annibynnol o'r cynllun peilot a oedd yn ein galluogi i adeiladu ar yr hyn a oedd yn gweithio'n dda a gwneud newidiadau wrth baratoi i gyhoeddi graddau o fis Ebrill 2025. Rydym yn ddiolchgar am ymgysylltiad y rhanddeiliaid niferus yn ein prosiect gweithredu. Roedd hyn yn ein galluogi i ddatblygu disgrifyddion manwl ar gyfer pob un o'r pedair gradd a ddyfernir gennym (nid ydym yn dyfarnu un radd ar gyfer y gwasanaeth cyfan). Mae'r rhain wedi'u nodi yn ein fframwaith arolygu a'n canllawiau ategol ar gyfer darparwyr a'r cyhoedd. Mae'n bwysig nodi y bydd yn cymryd dwy i dair blynedd i arolygu a rhoi graddau i bob cartref gofal a gwasanaeth cymorth cartref yng Nghymru.



Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- **Gofal cymdeithasol i oedolion**
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gofal cymdeithasol i oedolion

Ledled Cymru gwelwyd cynnydd yn nifer y gwasanaethau sy'n perfformio'n dda. 'Da' neu 'rhagorol' oedd mwyafrif (84%) y graddau mud a roddwyd gennym y flwyddyn hon a rhoddwyd graddau 'angen gwella' neu 'gwael' i 16%. 'Gofal a chymorth' yw'r thema arolygu sy'n cael y nifer mwyaf o raddau 'da' a 'rhagorol'. Y flwyddyn diwethaf, 26% (1087) o'r graddau oedd 'angen gwella' neu 'gwael'.

Graddau a roddwyd:

| | Rhagorol | Da | Angen gwella | Gwael | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau cymorth cartref | 196 | 624 | 173 | 42 | 1035 |
| Cartref gofal i oedolion â gofal nyrsio | 70 | 491 | 131 | 39 | 731 |
| Cartref gofal i oedolion | 247 | 1420 | 117 | 93 | 1877 |
| Cyfanswm | 513 | 2535 | 421 | 174 | 3643 |

Rydym wedi gweld tystiolaeth bod darparwyr yn cefnogi ac yn grymuso pobl i gael canlyniadau cadarnhaol, gan adlewyrchu newid yn ethos y gwasanaethau i ddull sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Mae hyn yn unol â disgwyliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Ymarfer Cadarnhaol: Sicrhau bod pobl wrth wraidd y gwasanaeth**

Mae darparwr gwasanaeth yn gweithio'n galed i sicrhau bod llesiant ac ymgysylltu â phobl wrth wraidd y gwasanaeth. Ymysg yr enghreifftiau mae cymunedau dementia sydd wedi'u haddurno mewn modd sensitif sy'n helpu i ddangos y ffordd i'r bobl ac addurniadau synhwyraidd deniadol i'r bobl ryngweithio â nhw. Gan ei fod wedi cael canlyniadau cadarnhaol mewn arolygiadau blaenorol, roedd darparwr y gwasanaeth yn awyddus i wella ei ymarfer a oedd eisoes yn dda. Mae gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau yn cael croeso da ac yn cael eu mwynhau gan y bobl yn y gwasanaeth. Caiff caredigrwydd a chanmoliaeth eu rhannu ar fwrdd caredigrwydd lle gall unrhyw un rannu diolch neu brofiad cadarnhaol. Mae'r rheolwyr yn y gwasanaeth yn sicrhau eu bod yn siarad â'r bobl er mwyn deall eu dymuniadau a'u problemau. Mae bwrdd 'Dywedoch chi… Gwnaethom ni' yn rhannu'r hyn y mae'r rheolwyr wedi'i wneud ar ôl cael sylwadau ac awgrymiadau pobl. Caiff cyflawniadau a nodau pobl eu dathlu a'u rhannu.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- **Gofal cymdeithasol i oedolion**
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gofal cymdeithasol i oedolion

Rydym hefyd wedi gweld gwelliannau mewn gwasanaethau cymorth cartref sy'n mynd yn fwy arloesol o ran mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd y bobl sy'n cael cymorth.

### Ymarfer cadarnhaol mewn gwasanaethau cymorth cartref

Mae gan un darparwr gydgysylltydd eithriadol o wybodus sy'n cynnal adolygiadau â phobl yn y gymuned. Mae'n cyfeirio pobl at wasanaethau ac yn rhoi awgrymiadau ymarferol i deuluoedd pobl sy'n byw gyda dementia er mwyn gwella eu llesiant. Er enghraifft, argymhellodd y dylid rhoi llyfrau gweithgareddau i berson a oedd yn gaeth i'w wely a oedd yn anniddig ac am gadw ei ddwylo'n brysur.

Mae darparwr arall yn canolbwyntio ar lesiant y staff, yn enwedig iechyd menywod. Mae'n rhedeg caffi menopos lle gall menywod ddod at ei gilydd yn anffurfiol i sgwrsio a rhoddir ystyriaeth i sut mae hyn yn effeithio ar eu llesiant a'u bywyd gwaith. Mae hefyd yn cynnal cyfarfod rheolaidd yn benodol i weithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain fel y gallant gymdeithasu a thrafod unrhyw bryderon neu faterion sydd ganddynt.

## Cefnogi gweithwyr o dramor

Mae gweithwyr o dramor yn dod yn gynyddol bwysig i'r gweithlu. Yng Nghaerdydd, mae 50% o staff cartrefi gofal o dramor, ac mae'n 100% i un cartref gofal. Ar y cyfan, rydym yn weld llawer o waith cadarnhaol i sicrhau bod gweithwyr a phobl o dramor yn cael eu cynnwys. Er enghraifft, staff o Nigeria yn rhannu arferion ffermio yn Nigeria â defnyddwyr gwasanaeth a arferai fod yn ffermwyr yng Nghymru. Rydym hefyd wedi gweld pobl yn addysgu'r Gymraeg i'w gweithwyr gofal a gweithwyr gofal o dramor yn sgwrsio yn Gymraeg wrth ryngweithio â phobl. Mae'r ymdrechion hyn yn creu amgylcheddau amrywiol eu diwylliant a phrofiadau cadarnhaol i bobl a gweithwyr. Rydym yn parhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o gaethwasiaeth fodern neu gamfanteisio ac yn rhoi gwybod amdanynt.

### Ymarfer cadarnhaol wrth gefnogi gweithwyr o dramor

Datblygodd gwasanaeth cymorth cartref grŵp cymorth i helpu ei weithwyr o dramor i gael help ar gyfer tai, addysg ac iechyd eu plant, llenwi ffurflenni, cyfeirio a darparu gwybodaeth am gyfleusterau ac amwynderau lleol. Dywedodd un gweithiwr gofal wrth ein harolygydd fod ei hyder a'i llesiant 'yn 2' pan gyrhaeddodd y DU, ond bod ei hunan-barch a'i boddhad bellach 'yn 9'.

Yn ystod 2024-2025, cynhaliodd y tîm arolygu awdurdodau lleol arolygiadau o wasanaethau i oedolion yn Abertawe a Chasnewydd. Cynhaliwyd gwiriadau gwella dilynol yn Sir Benfro, Ynys Môn a Gwynedd hefyd a chynhaliwyd gwiriad sicrwydd yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae ein holl adroddiadau i'w gweld yma.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- **Gofal cymdeithasol i oedolion**
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gofal cymdeithasol i oedolion

Ar draws y mwyafrif o'r awdurdodau lleol y gwnaethom ymweld â nhw, roedd gwasanaethau i oedolion fel arfer yn cael eu cefnogi gan arweinyddiaeth gref a gweledol. Roedd cyfeiriad strategol clir yn meithrin diwylliant o ddysgu parhaus, datblygiad proffesiynol ac ymarfer cydweithredol. Roedd arolygiadau'n tynnu sylw at ymrwymiad cyson i ddulliau sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gydag asesiadau a chynlluniau gofal wedi'u teilwra i adlewyrchu anghenion a dewisiadau unigol.

Mae galw a chymhlethdod anghenion pobl yn parhau i fod yn thema mewn gwasanaethau i oedolion.

Gwelsom ymarfer arloesol eang, fel mentrau micro a chymdeithasol yn Sir Benfro yn rhoi mwy o ddewis i bobl ac yn lleihau'r amseroedd aros am gymorth cartref. Gwelwyd partneriaethau effeithiol â gwasanaethau iechyd a sefydliadau trydydd sector hefyd. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae rowndiau ward rhithiol yn sicrhau bod adnoddau'n cyd-fynd ag anghenion pobl, gan hyrwyddo arloesedd ac addasrwydd sefydliadol.

Mae sawl awdurdod lleol wedi gwella eu gwasanaethau atal a chymorth cynnar drwy roi mentrau creadigol fel 'cysylltwyr cymunedol' ar waith yng Nghasnewydd, modelau sgwrsio cydweithredol yn Abertawe a rhwydweithiau llesiant integredig yng Nghaerffili.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) i atgyfnerthu ein proses o oruchwylio timau iechyd meddwl ac anableddau dysgu cymunedol. Nod y cydweithredu hwn yw rhoi cipolwg cynhwysfawr ar ansawdd y gofal a ddarperir gan y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol a'r modd y caiff y gwasanaethau hynny eu cydlynu. Mae'r arolygiadau hyn yn canolbwyntio ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, diogelu, mynediad at wasanaethau ac effeithiolrwydd gweithio amlasiantaethol. Mae'r dull ar y cyd hwn yn sicrhau bod darparwyr gwasanaethau'n cael negeseuon clir a chyson sy'n canolbwyntio ar anghenion a phrofiadau pobl sy'n cael cymorth.

**Enghraifft o ymarfer: Arolygiad ar y cyd o dimau iechyd meddwl cymunedol**

Roedd ein harolygiadau ym Mhowys a Chaerdydd yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd gwaith integredig rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wrth gefnogi iechyd meddwl a llesiant pobl. Gwelsom, er bod y staff yn dangos ymrwymiad cryf i ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chydweithredu amlasiantaethol effeithiol, roedd heriau o hyd o ran clywed lleisiau pobl yn gyson wrth gynllunio gofal, cydnabod gofalwyr a rhoi cymorth eiriolaeth. Mae ansefydlogrwydd yn y gweithlu, diffyg strategaethau hyfforddiant integredig a phroses anghyson o ddogfennu asesiadau o alluedd meddyliol yn effeithio ymhellach ar ansawdd a pharhad y gofal.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd
Trosolwg o'n sefydliad
Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025
Ymgysylltu â phobl
Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru
Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant
- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae
Ansawdd ein gwaith
Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant
Rhestr termau
Rhowch wybod i ni beth yw eich barn





## Meysydd i'w gwella mewn gofal cymdeithasol i oedolion

Meysydd a nodwyd i'w gwella mewn gwasanaethau cofrestredig i oedolion:

| | 2024/25 | | 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr adegau | Nifer y gwasanaethau | Nifer yr adegau | Nifer y gwasanaethau |
| Nodwyd fel meysydd i'w gwella | 550 | 246 | 881 | 337 |
| Angen gweithredu â blaenoriaeth a Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth wedi'i gyhoeddi | 195 | 54 | 352 | 76 |

Y flwyddyn hon, gwelsom fod angen gwella 300 o wasanaethau cofrestredig. Gwnaethom gyhoeddi 195 o Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth i 40 o gartrefi gofal a 14 o wasanaethau cymorth cartref. Gwnaethom dynnu sylw at 550 o 'feysydd i'w gwella' mewn 246 o wasanaethau (y gall rhai ohonynt fod wedi cael Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth hefyd). Mae hyn yn cymharu'n gadarnhaol â'r flwyddyn diwethaf pan wnaethom nodi bod angen gwella 413 o wasanaethau.

Gwnaeth y rhan fwyaf o'r gwasanaethau y gwelliannau angenrheidiol gan gwblhau ein camau gorfodi. Gwnaethom arolygu 67 o wasanaethau fwy nag unwaith i sicrhau bod gwelliannau wedi'u gwneud. Dim ond deg gwasanaeth cymorth cartref a 24 o gartrefi gofal gafodd eu hatgyfeirio at ein panel gorfodi am na welwyd gwelliant fel y cam nesaf ar ein llwybr gorfodi.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth gref yn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd a diogelwch y gofal, ynghyd â phrofiad a llesiant defnyddwyr gwasanaethau a staff. Gwnaethom gyhoeddi 92 o Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth o dan y thema hon, yn bennaf oherwydd trefniadau gwael o ran goruchwylio a datblygu staff. Dyma'r maes lle gwelsom fod angen y gwelliant mwyaf o hyd. Fodd bynnag, gwnaethom gyhoeddi 198 o Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth ynghylch arweinyddiaeth yn 2023-24, felly rydym yn falch o nodi y gwnaed cynnydd.



Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- **Gofal cymdeithasol i oedolion**
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gofal cymdeithasol i oedolion

## Enghraifft o ymarfer lle gwnaed gwelliannau mawr yn dilyn pryderon difrifol

Mae un cartref gofal wedi lleihau'r risg o niwed a chamdriniaeth yn sylweddol ar ôl mynd i'r afael â phroblemau difrifol a nodwyd gennym yn ystod arolygiad.

### Yr hyn a nodwyd gennym

Nid oedd pobl yn cael canlyniadau da. Gwelsom fod pryderon chwynion ynghylch diogelu wedi'u cyfiawnhau. Gwnaethom gyhoeddi Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth a gofal a chymorth. Roedd angen gwella'r amgylchedd hefyd.

### Sut yr ymatebodd y darparwr

Cymerodd yr unigolyn cyfrifol a'r cyfarwyddwr gofal gamau ar unwaith drwy ddarparu staff ychwanegol ac adolygu systemau i sicrhau bod gofal yn cael ei oruchwylio'n effeithiol. Er eu bod yn deall yr achosion sylfaenol ac yn cefnogi'r rheolwyr, cymerodd y gwelliannau amser ac roedd perfformiad y gwasanaeth yn amrywiol yn ystod y cyfnod hwn.

### Y sefyllfa bresennol

Mae gan y gwasanaeth reolwr effeithiol a chefnogol erbyn hyn ac mae ei angerdd tuag at ofal o ansawdd uchel wedi gwella canlyniadau'r bobl yn gyflym.

Y flwyddyn hon, gwnaethom gyhoeddi naw hysbysiad gorfodi statudol. Roedd y rhain yn amrywio o gyfyngu ar nifer y derbyniadau i gamau gorfodol i ganslo cofrestriad pedwar cartref gofal ac un gwasanaeth cymorth cartref. Mae'r niferoedd isel hyn yn dangos bod arolygu a chamau gorfodi yn arwain at welliannau ac yn sicrhau dyfodol gwasanaethau i'r bobl sy'n dibynnu arnynt i gael gofal a chymorth.

Mae angen i wasanaethau awdurdodau lleol i oedolion wella mewn sawl maes allweddol. Yn gyntaf, mae'n rhaid iddynt asesu a darparu gofal a chymorth yn gyflymach, fel bod pobl yn cael gwasanaethau pan fydd eu hangen arnynt. Mae hefyd angen iddynt nodi anghenion eiriolaeth a'u diwallu yn well, yn enwedig ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd mynegi eu dymuniadau. Yn olaf, rhaid iddynt gynnig asesiadau gofalwyr yn fwy cyson gyda llai o oedi er mwyn rhoi cymorth prydlon i ofalwyr.

Mae oedi sylweddol o hyd mewn perthynas â Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Mae hyn yn golygu bod llawer o bobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid heb ddiogelwch cyfreithiol na chymorth. Mae heriau cyson wrth reoli nifer y ceisiadau, defnydd anghyson o amodau a bylchau wrth gofnodi data allweddol fel ethnigrwydd yn tanseilio effeithiolrwydd y trefniadau diogelu ymhellach. Mae angen mynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn sicrhau bod hawliau unigolion yn cael eu diogelu.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- **Gofal cymdeithasol i oedolion**
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gofal cymdeithasol i oedolion

Mae hyfforddiant diogelu a chydlynu ar draws gwasanaethau i oedolion yn parhau i fod yn heriol, yn enwedig â'r cynnydd yn y nifer sy'n cael eu hatgyfeirio. Mae angen rhoi sylw parhaus i ddatblygiad yn y maes hwn er mwyn sicrhau bod y staff yn cael eu hyfforddi'n ddigonol a bod prosesau diogelu'n cael eu cydlynu'n effeithiol.

Mae llawer o ddarparwyr gofal cymdeithasol i oedolion wedi dweud wrthym am heriau parhaus wrth recriwtio a chadw staff gofal gan arwain at ddefnydd eang o nyrsys a staff asiantaeth, gan gynnwys cynnydd cyson yn y defnydd o staff o dramor. Yn y rhan fwyaf o wasanaethau, mae staff o dramor yn rhan werthfawr a hanfodol o sicrhau y caiff gwasanaethau gofal cymdeithasol eu darparu. Dros y flwyddyn diwethaf, nododd darparwyr ei bod yn fwy heriol penodi unigolion cyfrifol a rheolwyr.

Gwelsom fod awdurdodau lleol yn wynebu'r un heriau. Nododd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwyr ond bod heriau fel oedi yn ystod asesiadau, adolygiadau a mynediad i ofal cartref yn gyffredin, yn aml wedi'i gysylltu â phrinder gweithlu, absenoldeb salwch a phwysau ariannol.

Mae pwysau ariannol mewn awdurdodau lleol yn dal i effeithio ar argaeledd ac ansawdd gwasanaethau, gan greu bwlch rhwng cynllunio strategol a darpariaeth rheng flaen. Mae darparwyr hefyd yn wynebu pwysau ariannol yn sgil cynnydd mewn costau byw a lefelau ffioedd isel. O ganlyniad, mae rhai darparwyr wedi rhoi blaenoriaeth isel i ddiweddariadau amgylcheddol a gwaith adnewyddu ac ni allant ryddhau staff i gael hyfforddiant a datblygiad oherwydd costau cynyddol.

## Enghraifft o ymarfer o'n gwaith gydag awdurdodau lleol: 'Gwasanaethau y mae'n Rhaid eu Gwella'n Sylweddol'

Y flwyddyn hon, gwnaethom gyflwyno dull newydd ar gyfer awdurdodau lleol sy'n adlewyrchu ein llwybr gorfodi ar gyfer gwasanaethau cofrestredig. Yr enw ar hyn yw 'Gwasanaethau y mae'n Rhaid eu Gwella'n Sylweddol'.

Rydym yn defnyddio'r broses hon wrth nodi:

- Methiannau sylweddol gan wasanaeth
- Pryderon cronnol am wasanaethau cymdeithasol
- Problemau systemig â gwasanaethau cymdeithasol

Gall y materion hyn effeithio ar swyddogaeth benodol, maes o'r gwasanaeth neu sawl swyddogaeth. Mae'r dull yn egluro sut mae AGC yn sicrhau y gwneir gwelliannau o fewn terfynau amser priodol.

Mae'r broses yn sicrhau y gwneir gwelliannau penodol ac amserol fel bod pobl yn cael gofal a chymorth diogel ac effeithiol. Ein nod yw helpu'r gwasanaeth penodol a phob awdurdod lleol yng Nghymru i wella a dysgu. Drwy weithio gyda phartneriaid allweddol, byddwn yn helpu i gyfeirio awdurdodau lleol at ffynonellau cymorth ac enghreifftiau o arferion da.

Mae'n gadarnhaol nodi nad oes unrhyw awdurdod lleol yn wasanaeth y mae'n rhaid ei wella'n sylweddol ar hyn o bryd.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd
Trosolwg o'n sefydliad
Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025
Ymgysylltu â phobl
Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru
Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant
- Gofal cymdeithasol i oedolion
- **Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc**
- Gofal plant a chwarae
Ansawdd ein gwaith
Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant
Rhestr termau
Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc

## Proffil gwasanaethau sydd wedi cofrestru â ni

| Nifer y gwasanaethau a'r lleoedd ar 31/03/2025 | |
|---|---|
| Gwasanaeth mabwysiadu | 5 |
| Gwasanaeth eirioli | 2 |
| Ysgol breswyl | 12 |
| Gwasanaeth cartref gofal i blant | 350 |
| Gwasanaeth maethu | 22 |
| Coleg addysg bellach | 3 |
| Asiantaeth fabwysiadu yr awdurdod lleol | 20 |
| Gwasanaeth maethu awdurdod lleol | 22 |
| Canolfan breswyl i deuluoedd | 4 |
| Ysgol breswyl arbennig | 3 |
| Gwasanaeth llety diogel | 1 |
| Gwasanaeth preswyl ysgol arbennig | 2 |
| **Cyfanswm** | **446** |

Cynyddodd nifer y gwasanaethau plant cofrestredig 8.8% (36 o wasanaethau ychwanegol) y flwyddyn hon, a chynyddodd nifer y lleoedd 3.2% (86 o leoedd ychwanegol).


Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys ysgolion preswyl arbennig, yr oedd yn rhaid iddynt gofrestru ag AGC am y tro cyntaf yn 2024. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd dwy o'r pedair ysgol breswyl arbennig yng Nghymru wedi cofrestru, gan gynnig 27 o leoedd rhyngddynt.

## Cartrefi gofal i blant

Dros y 10 mlynedd diwethaf gwelwyd cynnydd o 163% yn nifer y cartrefi gofal i blant sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru. Y flwyddyn hon, mae 48 o wasanaethau cartrefi gofal newydd wedi'u cofrestru (cynnydd o 11.5% ers mis Mawrth 2024) yn 16 o'r 22 o siroedd yng Nghymru, gan arwain at 75 o leoedd ychwanegol. Caiff saith o'r rhain eu gweithredu gan awdurdod lleol.

Y flwyddyn hon, canslodd wyth gwasanaeth cartref gofal eu cofrestriad a rhoi'r gorau i weithredu.

**Nifer y Cartrefi Gofal ar gyfer Plant – Gwasanaethau**



Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- **Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc**
- Gofal plant a chwarae


Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn

# Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc




Mae'n ymddangos bod ein data yn dangos bod maint cartrefi gofal yn lleihau. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn unol â'r Canllawiau ar gofrestru cartref gofal i blant a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2024. Mae nifer y cartrefi gofal ym mhob rhanbarth (ôl troed bwrdd iechyd) yn amrywio, ac yng ngogledd Cymru y ceir y nifer mwyaf o leoedd. Nid yw dosbarthiad y lleoedd mewn cartrefi gofal ledled Cymru yn cyd-fynd â'r galw o ran plant sy'n derbyn gofal.

Cafodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 gydsyniad brenhinol ar 24 Mawrth 2025. Nod y Ddeddf hon yw gwneud rhagor o welliannau i ofal cymdeithasol yng Nghymru, drwy ddiwygio Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i gyfyngu ar y broses o wneud elw drwy ofalu am blant sy'n derbyn gofal, gyda dull graddol i'w roi ar waith o 1 Ebrill 2026. Mae'n bwysig ein bod yn paratoi ar gyfer y newidiadau hyn, a byddwn yn gweithio gyda darparwyr a rhanddeiliaid eraill i sicrhau eu bod yn deall y goblygiadau a'u bod yn cael cymorth os byddant am ailsefydlu fel darparwr nid-er-elw.

O 31 Mawrth 2025, caiff 76% o'r 265 o gartrefi gofal ar gyfer plant eu gweithredu gan ddarparwyr 'er elw', gan ddarparu 944 o leoedd, ac mae 280 o leoedd mewn 85 o gartrefi gofal nid-er-elw. O'r cartrefi gofal 'nid-er-elw' presennol a geir i blant, caiff 76% eu gweithredu gan awdurdodau lleol. Nid ydym yn gweld unrhyw newid sylweddol mewn tueddiadau cofrestru ar hyn o bryd tuag at ddarpariaeth 'nid-er-elw'.

## Yr hyn a wnaethom

| Arolygiadau a gynhaliwyd yn 2024/2025 | |
|---|---|
| Gwasanaeth eirioli | 2 |
| Ysgol breswyl | 1 |
| Gwasanaeth cartref gofal i blant | 201 |
| Gwasanaeth maethu | 1 |
| Gwasanaeth maethu Awdurdod Lleol | 12 |
| Canolfan breswyl i deuluoedd | 2 |
| **Cyfanswm** | **219** |

Y flwyddyn hon, gwnaethom gynnal 31 yn fwy o arolygiadau o wasanaethau plant o gymharu â 2023/24. Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar wasanaethau maethu awdurdodau lleol.

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**


Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- **Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc**
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn




# Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc

## Ymateb i bryderon

Daeth llai o bryderon i law am wasanaethau rheoleiddiedig y flwyddyn hon (103 o gymharu â 175 y flwyddyn diwethaf). Rydym yn priodoli hyn i welliannau mewn gwasanaethau, gan gynnwys sut maent yn mynd i'r afael â chwynion a phryderon staff. Daeth 32 o bryderon i law gan chwythwyr chwiban y flwyddyn hon o gymharu â 41 y flwyddyn diwethaf.



**205 o bryderon ynghylch gwasanaethau plant**

**103 ynghylch gwasanaethau rheoleiddiedig**

Gan gynnwys:
**43%** ynghylch arweinyddiaeth a rheolaeth
**33%** ynghylch gofal a chymorth

**102 ynghylch gwasanaethau plant awdurdodau lleol**

Gan gynnwys:
**33%** ynghylch ansawdd gwasanaethau
**17.6%** ynghylch diogelu

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- **Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc**
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith


Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



Gwnaethom ymateb i bryderon am wasanaethau rheoleiddiedig fel y dangosir:




**Dylid nodi, mae rhai pryderon yn arwain at fwy nag un cam gweithredu.**


Lle rydym yn asesu nad oes angen cymryd 'unrhyw gamau gweithredu ar unwaith' mewn perthynas â phryderon, rydym wedi cynnal ymholiadau ac wedi penderfynu nad oes angen i AGC gymryd unrhyw gamau pellach ar yr adeg hon.

Gwnaethom arolygu pum cartref gofal oherwydd pryderon a rannwyd â ni a gwelsom fod meysydd parhaus neu newydd yr oedd angen eu gwella. Mewn un achos arweiniodd yr arolygiad at gamau gorfodi, gan nodi gwerth pobl yn rhannu eu pryderon â ni.

Adolygodd ein tîm awdurdodau lleol bob pryder a ddaeth i law. Ymysg y camau gweithredu roedd rhoi ymateb ysgrifenedig â chyngor ac arweiniad, neu sgwrs bellach i gasglu rhagor o wybodaeth. Gyda chydsyniad, gellir rhannu pryderon hefyd ag uwch-reolwr perthnasol yr awdurdod lleol pan fydd angen iddo ymchwilio neu weithredu.

## Adolygu hysbysiadau

7320 o hysbysiadau gan gynnwys:



Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd
Trosolwg o'n sefydliad
Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025
Ymgysylltu â phobl
Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru
**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**
- Gofal cymdeithasol i oedolion
- **Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc**
- Gofal plant a chwarae
Ansawdd ein gwaith
Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant
Rhestr termau
Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc

Mae'r tabl isod yn dangos hysbysiadau sy'n gysylltiedig â phlant yn uniongyrchol:

| | Nifer yr Hysbysiadau Ar-lein | |
|---|---|---|
| | 2024-25 | 2023-24 |
| Camdriniaeth / honiad o gamdriniaeth | 598 | 501 |
| Ymholiad amddiffyn plant | 854 | 674 |
| Digwyddiad neu ddigwyddiad a amheuir o gamfanteisio'n rhywiol neu'n droseddol ar blentyn | 142 | 100 |
| Digwyddiad y rhoddwyd gwybod amdano i'r heddlu | 1,480 | 1,479 |
| Plentyn ar goll / absenoldeb heb esboniad yn y gwasanaeth | 2,902 | 2,655 |

Yn aml, mae hysbysiadau sy'n ymwneud â phlant sydd ar goll a digwyddiadau y rhoddwyd gwybod i'r heddlu amdanynt yn ymwneud â phlant y mae eu hymddygiad yn peri pryder. Gwelwn gyfraddau uchel o'r hysbysiadau hyn pan fydd y person ifanc wedi dychwelyd adref yr un diwrnod, weithiau o fewn yr awr, ar ôl colli'r cyrffyw y cytunwyd arno. Rydym yn parhau i weithio gyda darparwyr, awdurdodau lleol a'r heddlu i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn yn briodol ac mae trefniadau yn unol â 'Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan: diogelu plant sy'n mynd ar goll o'r cartref neu o ofal'. Rydym yn cyfrannu at ddiweddariad o'r canllawiau i sicrhau eglurder o ran ystyr 'ar goll' i sicrhau dulliau mwy cywir a phriodol o roi gwybod am ddigwyddiadau.

Weithiau mae hysbysiadau ynghylch honiadau o gamdriniaeth yn ymwneud â phlant yn datgelu camdriniaeth cyn dechrau derbyn gofal. Yn bennaf, mae gwasanaethau'n ein hysbysu ynghylch ymholiadau amddiffyn plant er mwyn dweud wrthym eu bod wedi rhoi gwybod am fater diogelu posibl yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc i'r awdurdod lleol. Ar adegau, nid yw'r adroddiadau hyn yn cyrraedd y trothwy ar gyfer prosesau diogelu ffurfiol awdurdodau lleol, ond mae ein harolygwyr bob amser yn eu hystyried ac yn casglu rhagor o wybodaeth, os bydd angen, ar gyfer cynllunio arolygiadau. Daeth nifer isel o hysbysiadau i law (1.9%) ynghylch achosion o gamfanteisio a amheuir, canran debyg i'r flwyddyn diwethaf (1.4%).

Cawsom fwy o hysbysiadau hefyd ynghylch plant sy'n byw mewn cartrefi gofal lle ceir Gorchymyn Amddifadu o Ryddid gan yr Uchel Lys (50 o hysbysiadau o gymharu ag 16 yn 2023/24). Rydym yn credu bod y cynnydd hwn wedi digwydd am ein bod wedi cyhoeddi canllawiau i ddarparwyr ym mis Chwefror 2024. Roedd y canllawiau hyn yn eu hatgoffa ynghylch pa mor bwysig ydyw i roi gwybod i AGC pan fydd plentyn mewn cartref gofal yn cael gorchymyn amddifadu o ryddid. Mae'r cynnydd yn adlewyrchu proses adrodd well, nid mwy o orchmynion llys.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- **Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc**
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc

## Yr hyn a nodwyd gennym

Mae'r darlun cyffredinol yn gadarnhaol gyda'r rhan fwyaf o wasanaethau'n sicrhau canlyniadau da i blant a phobl ifanc. Gwnaethom gynnal 201 o arolygiadau o 188 o gartrefi gofal ar gyfer plant a 'da' neu 'rhagorol' oedd 78% o'r graddau mud a roddwyd gennym.

Graddau a roddwyd:

| | Rhagorol | Da | Angen gwella | Gwael |
|---|---|---|---|---|
| Cartrefi gofal i blant | 105 | 501 | 117 | 56 |

### Enghraifft o ymarfer mewn perthynas â gwella canlyniadau

Roedd person ifanc wedi bod yn byw mewn gwasanaeth anghofrestredig lle'r oedd angen cymhareb staffio uchel i'w gefnogi ac roedd yn destun Gorchymyn Llys Amddifadu o Ryddid.

Symudodd i fyw mewn cartref gofal cofrestredig lle gallai'r darparwr sicrhau cymorth cyson wedi'i deilwra at yr unigolyn ac, o ganlyniad, setlodd y person ifanc ac o fewn wyth mis, cafodd y Gorchymyn Amddifadu o Ryddid ei ddirymu.

Achubodd y person ifanc ar gyfleoedd newydd i godi ei ddyheadau a hyrwyddo ei lesiant, gan gynnwys ymuno â'r cadetiaid, padlfyrddio ac ymdrochi mewn dŵr oer.

Yn yr arolygiad, rhoddwyd graddau mud cadarnhaol i'r gwasanaeth gan adlewyrchu'r ansawdd a'r ymrwymiad sydd wedi arwain at drawsnewid y gwasanaeth a'r person ifanc.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- **Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc**
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn

# Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc

Yn ystod 2023–2024, gwnaethom arolygu gwasanaethau plant yn awdurdod lleol Sir Gâr. Gwnaethom hefyd gynnal gwiriad gwella yn Sir Ddinbych a oedd yn cynnwys arolygu ei wasanaeth maethu.

Ar draws yr awdurdodau lleol a arolygwyd gennym, gwelsom arweinyddiaeth gref ac ymrwymiad i ddulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n sail i wasanaethau plant. Roedd y staff yn fedrus, yn cael eu cefnogi ac yn cydweithio ar draws adrannau.

Er gwaethaf yr heriau cenedlaethol o ran recriwtio a chadw staff, gwelodd ein harolygiadau welliannau o ran sefydlogrwydd y gweithlu gwasanaethau plant. Mae'r cynnydd hwn yn gwella prosesau cyfathrebu â theuluoedd a gofalwyr. Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau yn parhau i wynebu heriau sylweddol wrth reoli galw uchel am gymorth a chymhlethdod cynyddol anghenion plant.

Canfu ein harolygiadau ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant bod prosesau diogelu fwyaf effeithiol pan oedd dealltwriaeth ar y cyd o ymarfer a phrosesau diogelu ymysg yr holl bartneriaid.

Gwnaethom siarad â llawer o weithwyr proffesiynol hynod ymrwymedig a llawn cymhelliant a ddangosodd ddealltwriaeth dda o natur y gwaith mewn perthynas â phlant a theuluoedd y mae risg y byddant yn cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt.

Ledled Cymru, mae amrywiaeth eang o wasanaethau ar gael i gefnogi plant a diwallu anghenion unigol. Yn yr enghreifftiau gorau, er gwaethaf yr her sy'n gysylltiedig â gweithio o dan amgylchiadau cynyddol gymhleth, mae asiantaethau yn dangos gwydnwch wrth nodi ymyriadau, cynnig gwasanaethau a gweithio i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Canfu ein harolygiad o wasanaethau maethu awdurdodau lleol ymarfer cadarnhaol gan gynnwys plant yn cael cynnig eiriolaeth, gweithgareddau hamdden am bris gostyngedig neu am ddim gan gynnwys mynediad i gampfeydd / pyllau nofio i blant a theuluoedd maeth. Clywsom sylwadau cadarnhaol gan blant am deimlo'n rhan o deuluoedd gofalwyr maeth a chael gofal da. Gwelsom enghreifftiau da o blant yn cael gwaith 'taith bywyd' ac yn cael eu cefnogi i gynnal cydberthnasau â phobl sy'n bwysig iddynt. Gwneir ymdrech sylweddol i recriwtio a chadw gofalwyr maeth a nododd y rhan fwyaf o'r gofalwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda.



Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- **Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc**
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc

## Meysydd i'w gwella o ran gofal cymdeithasol i blant

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r meysydd i'w gwella a'r camau gweithredu â blaenoriaeth a nodwyd gennym mewn gwasanaethau cofrestredig i blant dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

| | 2024/25 | | 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr adegau | Nifer y gwasanaethau | Nifer yr adegau | Nifer y gwasanaethau |
| Nodwyd fel meysydd i'w gwella | 177 | 52 | 173 | 48 |
| Angen gweithredu â blaenoriaeth a Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth wedi'i gyhoeddi | 52 | 14 | 120 | 19 |

Cafodd tri chartref gofal eu hatgyfeirio at ein panel gorfodi oherwydd diffyg gwelliant, fel y cam nesaf ar ein llwybr gorfodi.

Lle gwnaethom nodi meysydd i'w gwella neu gyhoeddi hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth, roedd 46% (106) o'r rhain yn ymwneud ag arweinyddiaeth a rheolaeth ac roedd 43% yn ymwneud â gofal a chymorth. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd arweinyddiaeth dda wrth sicrhau bod trefniadau llywodraethu, sicrhau ansawdd, hyfforddiant a chymorth ar waith i sicrhau bod plant yn cael gofal a chymorth da i gyflawni eu canlyniadau.

Gwnaethom arolygu 12 cartref gofal fwy nag unwaith i sicrhau bod gwelliannau wedi'u gwneud. Gwnaethom gyhoeddi tri hysbysiad statudol gan gynnwys un Hysbysiad Gwella i ganslo cofrestriad cartref gofal.



Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- **Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc**
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc

**Enghraifft o ymarfer: Gwella canlyniadau drwy weithgarwch gorfodi**

Yn ystod arolygiad un cartref gofal, gwelsom sawl maes lle roedd angen gwella oherwydd lefelau staffio anniogel ac arweinyddiaeth a rheolaeth wael. O ganlyniad, cyhoeddwyd 15 o Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth, a chaeodd y darparwr y gwasanaeth yn wirfoddol ar ail ddiwrnod yr arolygiad.

Dechreuodd y gwasanaeth weithio'n agos gydag AGC i roi gwelliannau ar waith ac ailagorodd ar sail gyfyngedig, gan ofalu am un plentyn i ddechrau, cyn cynyddu'r capasiti. Cadarnhaodd arolygiad dilynol yr aed i'r afael â phob cam gweithredu â blaenoriaeth.

Mae'r plant bellach yn cael gofal o ansawdd uchel gan staff ymroddedig a medrus. Mae gan y teuluoedd bellach hyder yn y gwasanaeth, a oedd wedi lleihau'r risg yn sylweddol drwy roi diwygiadau gweithredol a rheoli ar waith. Mae'r arweinwyr yn parhau i ganolbwyntio ar gynnal safonau uchel ac anelu at ragoriaeth.

Mae darparwyr gwasanaethau plant rheoleiddiedig yn nodi bod staff gofal cymdeithasol yn wynebu heriau wrth gael gafael ar y Fframwaith Credydau a Chymwysterau mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol oherwydd diffyg argaeledd y cwrs. Os bydd y duedd hon yn parhau, mae risg y bydd llai o staff cymwys.

Rydym wedi nodi meysydd allweddol i'w gwella mewn gwasanaethau plant awdurdodau lleol, y bydd angen i sawl un ohonynt weithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael â nhw. Er mwyn cadw plant yn ddiogel, rhaid i awdurdodau lleol roi amserlenni a throthwyon diogelu ar waith yn gyson, gan ddilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Bydd hyn yn gwella'r ffordd y maent yn dadansoddi risg ac yn gwneud penderfyniadau. Rhaid iddynt hefyd roi adborth cyson ar atgyfeiriadau diogelu. Bydd mwy o ffocws ar ymarfer myfyriol ac arbenigedd diogelu cyd-destunol yn atgyfnerthu'r modd y mae asiantaethau'n cydweithio i amddiffyn plant. Bydd systemau TG gwell hefyd yn helpu asiantaethau i rannu gwybodaeth ac i gydweithio'n fwy effeithiol.

Mae'n hanfodol sicrhau bod gan bob plentyn a theulu lais, dewis a rheolaeth yn eu gofal a'u cymorth, gan hyrwyddo canlyniadau cyflawnadwy a chynaliadwy o ansawdd uchel. Gwelsom angen parhaus i ddatblygu llwybrau ymyrryd yn gynnar cliriach er mwyn rhoi cymorth amserol i'r sawl sydd ei angen.

Ar gyfer sawl awdurdod lleol, mae'n anodd creu gweithlu parhaol a chynllunio i leihau'r ddibyniaeth ar staff dros dro ar yr un pryd. Gwelwyd heriau penodol mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd lle mae pobl yn gweithio ar draws ffiniau, gan gynnwys awdurdodau cyfagos yn Lloegr. Mae disgresiwn lleol dros dâl yn golygu bod rhai awdurdodau lleol yn cynnig cyflogau mwy cystadleuol nag eraill, gan greu cystadleuaeth rhwng cynghorau.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- **Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc**
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc

Mae gweithlu ansefydlog yn atal cyfleoedd i blant feithrin cydberthnasau sefydlog, ymddiriedus ac arwyddocaol â gweithiwr cyson. Mae plant, rhieni a gofalwyr yn nodi bod newidiadau staff cyson yn ei gwneud hi'n anos iddynt symud ymlaen yn eu bywydau. Mewn rhai ardaloedd, mae asiantaethau partner, fel heddluoedd a byrddau iechyd, yn ei chael hi'n anodd darparu'r adnoddau sydd eu hangen o ystyried y cynnydd mewn gweithgarwch amddiffyn plant.

Canfu ein harolygiad o wasanaethau maethu awdurdodau lleol fod angen gwella sawl maes. Ni chaiff lleisiau plant eu cofnodi'n gyson, a rhoddodd gofalwyr maeth adborth cymysg am y gwasanaethau a ddarperir iddynt. Nid oes digon o ofalwyr maeth ar gael, ac mae gan staff bryderon ynghylch eu gallu i recriwtio mwy a hwythau eisoes yn rheoli blaenoriaethau croes.

Mae angen atgyfnerthu'r prosesau ar gyfer paru plant â gofalwyr maeth. Mae rhai plant yn gorfod gweld sawl trefniant maethu yn chwalu am nad oes gweithdrefnau digon cadarn ar gael ar gyfer asesu a fydd trefniadau hirdymor yn addas.

Rydym eisoes wedi adrodd ar ein rhaglen dreigl ar gyfer cynnal Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) sydd ar waith ers 2019 ac, ym mis Medi 2024, gwnaethom gyhoeddi adroddiad trosolwg ar ein canfyddiadau.

## Gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestriad

Dyma'r bedwaredd flwyddyn i ni adrodd ar y mater hwn. Er bod mwy o leoedd mewn cartrefi gofal ar gyfer plant ledled Cymru, mae diffyg darpariaeth briodol ar gyfer rhai plant a phobl ifanc o hyd. Cafwyd 74 o hysbysiadau am gartrefi gofal i blant yn gweithredu heb gofrestriad yn 2024/25 – gostyngiad sylweddol o gymharu â 117 y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn golygu bod llai o blant yn byw mewn lleoliadau anghofrestredig. Ar gyfartaledd, roedd 25 o gartrefi gofal i blant yn gweithredu heb gofrestriad bob wythnos, yn amrywio o 32 i 18.

Mae'r broblem hon yn parhau am fod angen i rai plant gael gwasanaethau a all ddiwallu eu hanghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth. Mae gan awdurdodau lleol gynlluniau comisiynu i fynd i'r afael â hyn, ond mae'n cymryd amser ac adnoddau i ddatblygu ac adeiladu gwasanaethau newydd. Rydym yn cydweithio ag awdurdodau lleol i roi cyngor cofrestru cyn gynted ag y byddant yn dechrau datblygu gwasanaethau newydd gyda'r nod o sicrhau bod y broses gofrestru mor syml â phosibl.

Rydym yn falch o weld bod mwy o wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestriad wedi gwneud cais i gofrestru; 35 yn 2024/25 o gymharu â 19 yn 2023/24.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- **Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc**
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn





## Adolygiad ar y cyd o gymorth iechyd meddwl

Mewn cydweithrediad ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn, gwnaethom gynnal adolygiad ar y cyd i archwilio'r modd y mae gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant yn cefnogi anghenion iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys arolygiadau ar y cyd yn Nhorfaen, Ceredigion a Merthyr Tudful.

Drwy hunanasesiadau byrddau iechyd a gwaith maes penodol mewn tri awdurdod lleol, gwelsom fod heriau sylweddol o hyd er y nodwyd gwelliannau calonogol mewn gwasanaethau cymorth ac atal cynnar.

Mae'r gofal amserol a phriodol sydd ar gael yn anghyson, yn enwedig i'r sawl sydd ag anghenion cymhleth neu niwrowahanol. Ymysg y rhwystrau mae capasiti cyfyngedig ar gyfer rhai gwasanaethau, oedi mewn gofal dilynol a threfniadau cydgysylltu tameidiog rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) a gwasanaethau awdurdodau lleol. Mae meini prawf cymhwystra anghyson a dulliau cyfathrebu gwael yn rhwystro mynediad a thryloywder ymhellach. Mae ysgolion yn chwarae rôl gynyddol o ran cymorth iechyd meddwl, gyda datblygiadau cadarnhaol fel cwnsela ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae cynnydd mewn galw a llai o gyllid yn rhoi straen ar adnoddau.

Mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod angen brys am system cymorth iechyd meddwl fwy ymatebol, teg ac integredig ar gyfer plant a phobl ifanc. Gellir gwella canlyniadau drwy wella prosesau cydweithio amlasiantaethol drwy sicrhau llwybrau atgyfeirio unedig, dulliau cyfathrebu gwell a rhannu gwaith cynllunio gofal. Mae'r paneli Pwynt Mynediad Unigol ar gyfer Llesiant Emosiynol Plant yng Ngwent yn dangos dull amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae hefyd angen atgyfnerthu gwasanaethau ymyrryd ac atal yn gynnar, gan sicrhau mynediad amserol a chyson at CAMHS, a mynd i'r afael ag anghenion y rhai sydd rhwng trothwyon gwasanaethau, yn arbennig plant niwrowahanol ac sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- **Gofal plant a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gwasanaethau gofal plant a chwarae

## Proffil gwasanaethau cofrestredig 31/03/2025

| | Nifer y gwasanaethau | Nifer y lleoedd |
|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 1,417 | 11,651 |
| Crèche | 13 | 456 |
| Gofal dydd llawn | 1,121 | 44,184 |
| Darpariaeth chwarae mynediad agored | 34 | 2,589 |
| Gofal y tu allan i'r ysgol | 313 | 13,076 |
| Gofal dydd sesiynol | 330 | 7,485 |
| **Cyfanswm** | **3,228** | **79,441** |

Y flwyddyn hon, gwelwyd gostyngiad cyffredinol o 3% yn nifer y gwasanaethau gofal plant. Er bod hyn yn cyfateb i 108 yn llai o wasanaethau, dim ond 82 yn llai o leoedd yw hyn (0.1% yn llai).

Mae tuedd barhaus i weld arbedion maint mewn gwasanaethau gofal plant gyda gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant a mwy o leoedd gofal dydd llawn. Nid yw'n glir a yw'r twf mewn gofal dydd llawn wedi'i arwain gan alw neu o ganlyniad i fuddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.



Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- **Gofal plant a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gwasanaethau gofal plant a chwarae

| | | |
|---|---|---|
| Gofal dydd llawn | cynnydd o 2.7% | **30** o wasanaethau newydd **/ 1555** o leoedd |
| Gwasanaethau crèche | sefydlog | **18** o leoedd newydd |
| Gwarchodwyr plant | gostyngiad o 5.7% | **85** yn llai o wasanaethau / **616** o leoedd |
| Gofal dydd sesiynol | gostyngiad o 12.5% | **47** yn llai o wasanaethau / **1004** o leoedd |

Yn ystod y flwyddyn, canslodd 102 o wasanaethau gofal dydd llawn eu cofrestriad (35 yn fwy na'r flwyddyn diwethaf). Fodd bynnag, y rheswm mwyaf cyffredin dros hyn oedd bod y gwasanaeth wedi cael ei drosglwyddo i ddarparwr arall ac felly bod y ddarpariaeth wedi parhau i weithredu. Y rheswm mwyaf cyffredin nesaf dros ganslo oedd nad oedd y gwasanaeth yn hyfyw mwyach, gan ddangos natur fregus cyllid yn y sector.

Er i ddeg yn fwy o warchodwyr plant gofrestru'r flwyddyn hon o gymharu â 2023/24, cafodd 147 o wasanaethau eu canslo, gan barhau â'r gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant yng Nghymru. Mae 999 yn llai o warchodwyr plant nawr o gymharu â deg mlynedd yn ôl.

Y rhesymau cyffredin a roddwyd dros y ffaith bod gwarchodwyr plant yn canslo eu cofrestriad oedd newid gyrfa ac ymddeoliad. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â gwarchodwyr plant sy'n atal eu gwasanaeth dros dro yn wirfoddol am beth amser, gan gynnwys y rhai a nododd fod ganddynt gyflogaeth arall. Mewn sawl achos, mae hyn wedi arwain at ganslo'r cofrestriad yn llwyr. Er y bydd hyn wedi cyfrannu at y gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant, mae hefyd yn rhoi darlun mwy cywir o'r lleoedd gwarchodwyr plant sydd ar gael ledled Cymru. Mae rhai arwyddion cadarnhaol gan fod gwarchodwyr plant yn fwy optimistaidd ynghylch eu sefydlogrwydd ariannol o gymharu â blynyddoedd diweddar.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- **Gofal plant a chwarae**

Ansawdd ein gwaith


Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant


Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn


# Gwasanaethau gofal plant a chwarae


Mae'r graff isod yn rhoi trosolwg 10 mlynedd o ofal dydd llawn:




Mae'r graffiau canlynol yn rhoi trosolwg 10 mlynedd ar gyfer gwarchodwyr plant.



Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- **Gofal plant a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gwasanaethau gofal plant a chwarae


## Yr hyn a wnaethom

Gwelwyd cynnydd yn nifer yr arolygiadau a gwblhawyd gennym am yr ail flwyddyn yn olynol, o 725 i 792. Hefyd, gwnaethom gynnal 154 o gyfarfodydd ansawdd gyda darparwyr i drafod gwelliannau a wnaed ganddynt ers yr arolygiad diwethaf a'u cynlluniau gwella ar gyfer y dyfodol.

| Arolygiadau a chyfarfodydd ansawdd | 2024/25 |
|---|---|
| Gwarchodwr plant | 377 |
| Crèche | 1 |
| Gofal dydd llawn | 412 |
| Darpariaeth chwarae mynediad agored | 2 |
| Gofal y tu allan i'r ysgol | 77 |
| Gofal dydd sesiynol | 77 |
| **Cyfanswm** | **946** |

## Ymateb i bryderon

481 o bryderon (o gymharu â 552 y flwyddyn diwethaf) gan gynnwys:Gwnaethom ymateb i bryderon yn y ffyrdd canlynol:




Gwnaethom ymateb i bryderon yn y ffyrdd canlynol:

- **25% (119)** wedi arwain at gynnal arolygiad yn gynnar
- **30% (142)** wedi cael eu hatgyfeirio at ddarparwr y gwasanaeth i ymchwilio iddynt
- **7%** wedi'u rhannu ag asiantaethau eraill
- **39%** heb fod angen unrhyw gamau gweithredu ar unwaith

**Dylid nodi, mae rhai pryderon yn arwain at fwy nag un cam gweithredu.**

# Gwasanaethau gofal plant a chwarae

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- **Gofal plant a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn

Gwnaethom asesu y gallai 4% o'r pryderon gael effaith fawr ar y plant, gan arwain at gynnal arolygiad brys i sicrhau bod y plant yn cael eu diogelu'n briodol neu alw panel gorfodi i benderfynu a oedd angen cymryd camau brys, fel atal cofrestriad dros dro.


Mewn 98 o achosion, roedd y pryder wedi'i godi gan chwythwr chwiban. Mae'n galonogol o hyd gweld bod gweithwyr gofal yn gwybod y gallant godi pryderon â ni.

Pan fydd pryder yn ymwneud â mater diogelu posibl, byddwn yn gweithio'n agos gyda thimau diogelu'r awdurdod lleol ac, mewn rhai achosion, yr heddlu, i sicrhau diogelwch y plant. Y flwyddyn hon, gwnaethom atgyfeirio 21 o bryderon at dimau diogelu ledled Cymru.

Lle rydym yn asesu nad oes angen cymryd 'unrhyw gamau gweithredu ar unwaith' mewn perthynas â phryderon, rydym wedi cynnal ymholiadau ac wedi penderfynu nad oes angen i AGC gymryd unrhyw gamau pellach ar yr adeg hon.

## Adolygu hysbysiadau

8859 o hysbysiadau gan gynnwys:




Gwelwyd gostyngiad yn nifer yr hysbysiadau sy'n ymwneud â 'newidiadau i bobl yn y gwasanaeth a 'newidiadau cyffredinol i staff', sy'n awgrymu gwelliant bach yng ngallu lleoliadau i gadw staff.

Gwelwyd cynnydd o 20.5% yn nifer yr hysbysiadau ynghylch honiadau o niwed i blant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cynnwys achosion lle digwyddodd y niwed honedig y tu allan i'r lleoliad gofal plant.

Er gwaethaf y cynnydd hwn, nid yw ein harolygiadau yn dangos unrhyw dystiolaeth bod mwy o blant yn cael eu niweidio mewn lleoliadau gofal plant. Roedd y niferoedd yn fach o hyd. Rydym yn credu bod y cynnydd mewn hysbysiadau yn adlewyrchu gwell dealltwriaeth o'r gofynion adrodd, yn dilyn ein trafodaethau parhaus â darparwyr gofal plant, swyddogion awdurdodau lleol a phartneriaid yn y sector.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- **Gofal plant a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gwasanaethau gofal plant a chwarae

## Yr hyn a nodwyd gennym

Nifer y graddau a roddwyd:

| Thema | Rhagorol | Da | Digonol | Gwael |
|---|---|---|---|---|
| Llesiant | 108 | 295 | 40 | 0 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 56 | 247 | 114 | 27 |
| Gofal a Datblygiad | 76 | 283 | 75 | 9 |
| Yr Amgylchedd | 51 | 298 | 87 | 7 |
| **Cyfanswm** | 291 | 1,123 | 316 | 43 |

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn parhau i ddarparu lefel dda o ofal i blant, gydag 80% o'r graddau a roddwyd yn rhai 'rhagorol' neu 'da'. 'Da' oedd y radd a roddwyd fwyaf ym mhob un o'r pedair thema. Mae hyn yn galonogol i'w weld. Ein nod yw cefnogi a herio darparwyr i wella yn barhaus ac anelu at ragoriaeth, gan gynnig y canlyniadau gorau posibl i blant.

Mae'n gadarnhaol gweld bod llai o raddau 'gwael' yn cael eu rhoi o gymharu â'r flwyddyn diwethaf (pan roddwyd 56). Rydym yn parhau i weld darparwyr yn gwneud ymdrechion sylweddol i ddarparu'r gofal gorau posibl mewn hinsawdd economaidd heriol.

Mae cyfarfodydd ansawdd, sef cyfarfodydd rhithiol rhwng arolygydd a darparwr, yn rhan allweddol o'n gwaith i gefnogi gwelliant parhaus. Cynhelir cyfarfodydd ansawdd rhwng ymweliadau arolygu ac maent yn cynnig cyfle i ddarparwyr siarad â ni am yr hyn y maent wedi'i wneud i wella eu gwasanaeth ers yr arolygiad diwethaf, a'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i wella ymhellach cyn yr un nesaf. Mae'r cyfarfodydd wedi bod yn gadarnhaol, gyda 150 yn arwain at roi sicrwydd i AGC fod darparwyr yn canolbwyntio'n briodol ar wella canlyniadau i blant a mynd ati'n rhagweithiol i gynllunio gwelliant. Mewn pedwar achos, nid oeddem o'r farn bod y darparwr yn gwneud cynnydd priodol a gwnaethom drefnu ymweliad arolygu cynharach.

Hefyd, fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i gefnogi gwelliant yn y sector, rydym bellach yn nodi ac yn cyhoeddi enghreifftiau o ymarfer cadarnhaol. Lleoliadau yw'r rhain lle rydym yn gweld ymarfer sy'n gwarantu cael ei rannu'n eang, i ysbrydoli eraill i ddysgu ac i wella eu hymarfer eu hunain. Cyhoeddir y rhain ar ein tudalen we ymarfer gwerth ei rannu.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- **Gofal plant a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn

# Gwasanaethau gofal plant a chwarae

## Ymarfer cadarnhaol o ran cysylltu cenedlaethau: Plant meithrinfa Red Robins yn cwrdd â grŵp dementia

Mae meithrinfa yng Nghil-y-coed wedi trawsnewid ymweliadau wythnosol â grŵp dementia gerllaw yn brofiad dysgu ystyrlon. Nododd tîm y feithrinfa y dylai cysylltiadau cymunedol gynnwys pobl o bob oedran. Mae ei ddull syml yn dod â phlant rhwng dwy a phedair oed a chymdogion hŷn at ei gilydd, gan greu cyfleoedd rheolaidd i ryngweithio sydd o fudd i'r ddau grŵp. Mae'r hyn a ddechreuodd ar ffurf ymweliadau achlysurol bellach yn rhan annatod o fywyd y feithrinfa, sy'n dangos bod dysgu yn ymestyn yn bell y tu hwnt i waliau'r lleoliad.

*"Dyma uchafbwynt fy wythnos, gweld y plant, does gen i ddim plant fy hun" (un o gyfranogwyr y grŵp dementia).*

*"Dwi'n hoffi rhoi blodau iddyn nhw, gan eu bod yn eu gwneud nhw'n hapus" (plentyn o'r feithrinfa).*



Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- **Gofal plant a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gwasanaethau gofal plant a chwarae

## Arolygiadau ar y cyd ag Estyn

Rydym wedi bod yn cydweithio ag Estyn ers 2019 i arolygu ar y cyd y gofal a'r addysg a gaiff plant mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir i ddarparu addysg ran-amser i blant tair a phedair oed. Y flwyddyn hon, gwnaethom arolygu 89 o wasanaethau gyda'n gilydd. Gwelsom fod y rhan fwyaf o wasanaethau yn darparu gofal da neu ragorol i'w plant. Gwelwyd tuedd gynyddol yn nifer y gwasanaethau sy'n cael gradd 'rhagorol' ym mhob thema. Themâu 'yr Amgylchedd' ac 'Arweinyddiaeth a Rheolaeth' sydd wedi gweld y cynnydd cymesur mwyaf mewn graddau 'Rhagorol'.

Ynghyd ag Estyn, rydym wedi dechrau'r broses o ymateb i adolygiad o'r rhaglen arolygu ar y cyd, a ddaeth i ben ym mis Mai 2024. Roedd yr adolygiad yn casglu safbwyntiau rhanddeiliaid a arweiniodd at argymhellion i'w hystyried gennym. Gyda'n gilydd, rydym yn adolygu ein fframwaith arolygu i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn addas at y diben o hyd, gan gwmpasu'r datblygiadau niferus a arweiniwyd ac a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru ers i'r fframwaith gwreiddiol gael ei lunio.

Mae'r rhain yn cynnwys y Cwricwlwm i Gymru a'r dull Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, ynghyd â'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cod Ymarfer diwygiedig ar Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r argymhellion o'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae.

## Meysydd i'w gwella

| | 2024/25 | | 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr adegau | Nifer y gwasanaethau | Nifer yr adegau | Nifer y gwasanaethau |
| Nodwyd fel meysydd i'w gwella | 402 | 175 | 360 | 147 |
| Angen gweithredu â blaenoriaeth a Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth wedi'i gyhoeddi | 126 | 30 | 155 | 46 |

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

**Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant**

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- **Gofal plant a chwarae**

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Gwasanaethau gofal plant a chwarae

Pan na fydd gwasanaethau'n darparu gofal priodol ac yn rhoi llesiant neu ddiogelwch plant yn y fantol, byddwn yn gweithredu. Y flwyddyn hon, canfuwyd 528 o feysydd yr oedd angen eu gwella neu yr oedd angen cymryd camau gweithredu â blaenoriaeth mewn perthynas â nhw.

Mae'n gadarnhaol gweld gostyngiad yn nifer yr Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth a roddwyd i ddarparwyr gan fod y rhain yn cael eu rhoi lle mae'r effaith, neu'r risg o effaith, ar ganlyniadau i blant ar eu mwyaf. Mae'r materion mwyaf cyffredin sy'n arwain at gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yn ymwneud â diogelu, diogelwch yr amgylchedd a recriwtio staff yn ddiogel. Roedd y materion mwyaf cyffredin a nodwyd gennym fel meysydd i'w gwella yn ymwneud â chyflogi staff, cadw cofnodion ac addasrwydd gweithwyr.

Y flwyddyn hon, cafodd 44 o leoliadau gofal plant eu hatgyfeirio at ein panel gorfodi o dan ein Llwybr Sicrhau Gwelliant a Gorfodi. Bydd y panel yn penderfynu pa gamau i'w cymryd pan fydd lleoliadau'n methu cyrraedd safonau gofynnol, gan roi blaenoriaeth i ddiogelwch plant a sicrhau gwelliannau. Llwyddodd 21 o leoliadau i gwblhau'r broses orfodi yn llwyddiannus gan ddychwelyd at arolygiadau safonol ar ôl gwella eu safonau gofal yn sylweddol. Canslwyd cofrestriad saith lleoliad, dewisodd tri darparwr ganslo'n wirfoddol, a chanslwyd cofrestriad y pedwar arall gennym ni.

Rydym yn parhau i fonitro'r holl leoliadau sydd ar y llwybr gorfodi er mwyn olrhain eu cynnydd a sicrhau gwelliannau parhaus.

Y flwyddyn hon, cynhaliwyd mwy o baneli gorfodi brys mewn ymateb i faterion brys o gymharu â'r flwyddyn diwethaf.

Gwnaethom orfodi 11 o wasanaethau i atal eu cofrestriad dros dro, yn bennaf am fod ymchwiliadau'r heddlu ac ymchwiliadau diogelu'n mynd rhagddynt. Gwnaethom orfodi saith gwarchodwr plant ac un ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol i ganslo eu cofrestriad am nad oeddent yn gweithredu mwyach nac yn ymgysylltu ag AGC.

Gwnaethom arolygu 43 o wasanaethau fwy nag unwaith i sicrhau bod gwelliannau priodol wedi'u gwneud. Mae treulio amser mewn lleoliadau yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o'r sector, i nodi meysydd o ymarfer cadarnhaol a meysydd lle mae angen cymorth a datblygiad pellach.

Yr adborth a gafwyd gan y sector yw bod y broses o recriwtio a chadw staff yn her barhaus. Rydym yn parhau i dderbyn ymholiadau ynghylch sut y gall darparwyr sicrhau eu bod yn cyflawni'r cymarebau staff: plant a'r cymwysterau sy'n ofynnol gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, gan sicrhau bod y staff yn cael egwylion priodol ac y gallant fynychu hyfforddiant gorfodol gan gynnwys hyfforddiant diogelu a chymorth cyntaf. Mae hwyluso cymorth priodol i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol hefyd yn parhau i fod yn heriol i rai darparwyr.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion

- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc

- Gofal plant a chwarae

**Ansawdd ein gwaith**

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Ansawdd ein gwaith

## Adborth ar ansawdd ein gwaith

Mae'n bwysig ein bod yn gwybod pa mor dda rydym yn gwneud, yn yr un ffordd ag y byddwn yn disgwyl i'r gwasanaethau a reoleiddir ac a arolygir gennym sicrhau ansawdd eu darpariaeth a gwella'n barhaus.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein dull o sicrhau ansawdd ac mae sawl peth sy'n ein helpu i fyfyrio ac i ddysgu gan gynnwys:

- Holiaduron adborth ar ôl arolygiad ac ar ôl cofrestru
- Cwynion
- Ymateb i adroddiadau arolygu
- Sylwadau
- Tribiwnlysoedd safonau gofal.

Mae'r wybodaeth isod yn rhoi cipolwg ar ansawdd ein gwaith. Rydym o'r farn ei bod yn adlewyrchu'r gwaith a wnawn i feithrin cydberthnasau cadarnhaol â darparwyr a, lle y bo'n bosibl, i'w 'gael yn gywir y tro cyntaf'.

**Adborth:** Ar ôl pob cofrestriad ac arolygiad, byddwn yn rhannu arolwg yn ceisio adborth gan ddarparwyr. Dros y flwyddyn diwethaf mae 704 o arolygon adborth ar ôl arolygiad wedi cael eu cwblhau (cyfradd ddychwelyd o 30.5%) Nododd y mwyafrif o'r ymatebion ein bod yn cynnal arolygiadau yn unol â'n gwerthoedd.

*"Rwy'n teimlo bod AGC am annog diwylliant o welliant parhaus. Gan nodi'r pethau rydym yn eu gwneud yn dda, ond gan roi adborth adeiladol ar yr un pryd ar y meysydd / agweddau y gellir eu gwella. Rwy'n teimlo bod y tîm arolygu yn gweithio 'gyda' ni yn hytrach nag yn ein 'herbyn', gan sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng codi materion, pryderon ac awgrymiadau ond gan hefyd weld y pethau da a gwerthfawrogi ymdrechion a chymhelliant pob aelod o'r tîm."*

*"Roedd fy arolygydd yn wych: gwnaeth i mi deimlo'n gyfforddus iawn gan fy ngalluogi felly i fwrw ati â'm diwrnod fel arfer. Rhoddodd adborth gwych i mi a gwnaeth i mi deimlo fy mod wir yn cael fy ngwerthfawrogi fel gwarchodwr plant."*

*"Roedd yr adborth a gefais gan staff y feithrinfa ar ddiwrnod yr arolygiad, ac wrth ryngweithio â nhw'n bersonol dros y ffôn ac yn ystod y cyfarfod Teams, yn gadarnhaol iawn. Rwy'n credu bod y profiad wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran dilysu ein cynlluniau presennol ac ystyried argymhellion newydd / ychwanegol ar gyfer y dyfodol. Roedd yr arolygydd yn graff, ond roedd ganddo ddiben cadarnhaol, yn fy marn i. Yn gyffredinol, roedd y profiad yn adeiladol iawn ac yn werthfawr o ran gwybodaeth. Da iawn."*

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

**Ansawdd ein gwaith**

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Ansawdd ein gwaith

*"Mae'n hawdd iawn mynd at ein harolygydd ac mae hi bob amser ar gael i ateb unrhyw gwestiynau. Er gwaethaf yr anawsterau roedd y gwasanaeth yn eu hwynebu a'r PANs a gyhoeddwyd yn sgil hynny, llwyddais i gynnal cydberthynas waith dda â'n harolygydd drwy gydol y broses. Mae hyn yn brawf o arbenigedd yr arolygydd wrth ddeall y sefyllfa'n llawn a gweithio'n effeithiol â'r rheolwyr perthnasol i hyrwyddo newidiadau amserol i'r gwasanaeth a ddarperir yn y ffordd orau ac er lles pennaf y plant a'r teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Yn dilyn arolygiad arall yn ddiweddar, rydym wedi bodloni'r holl PANs ac mae proffesiynoldeb yr arolygydd wedi bod yn rhan annatod o'n gallu i wneud hyn."*



**Rydym hefyd yn gofyn, 'beth y gellid ei wella yn eich barn chi?' ac yn gwerthfawrogi'r awgrymiadau a gawn:**

*"Yn ein barn ni, byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai'r arolygydd wedi dod i'n gweld i roi adborth wyneb yn wyneb ar ôl ein harolygiad, yn hytrach na gwneud hynny dros y ffôn."*

*"Er bod yr arolygydd wedi gwneud pob ymdrech i gyfathrebu ag unigolion yn y gwasanaeth, gofynnodd yr arolygydd am gael ymweld â rhai unigolion a oedd yn cael eu cefnogi yn Gymraeg, ond nid oedd yn gallu cyfathrebu gan ddefnyddio mamiaith yr unigolyn. Er ein bod yn deall na fydd pob arolygydd yn siarad Cymraeg, mewn ardal â phoblogaeth uwch o siaradwyr Cymraeg, byddem yn croesawu cyfieithydd neu ail arolygydd a all gasglu adborth yn newis iaith y bobl."*

Mae darparwyr wedi rhoi adborth cadarnhaol ar ein prosesau cofrestru a chais i amrywio. Gwnaethant ganmol yn benodol y cymorth, y dulliau cyfathrebu clir a'r wybodaeth ddefnyddiol a gafwyd gan yr arolygwyr cofrestru, a'u helpodd i wella eu gwasanaethau ac a ddangosodd werthoedd AGC ar waith. *"Drwy gydol y broses gwneud cais, cefais gefnogaeth lawn ac ar y cyd â'r argymhellion a wnaed, gwnaethom lwyddo i wella'n barhaus."*

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Ansawdd ein gwaith

## A wnaeth yr adborth a roddwyd gennym ar eich cais eich helpu i wella eich gwasanaeth?

*"Do, mae'r gwasanaeth a ddarperir gennym wedi gwella. Rydym wedi cyflwyno gwell prosesau a strwythurau. Mae gennym well wybodaeth am Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac rydym wedi gwneud amrywiaeth o welliannau."*

*"Ysgrifennaf i ddiolch i chi am ansawdd y cymorth a gefais yn ystod y broses o gofrestru fel darparwr gwasanaeth gofal cartref. Aethoch y tu hwnt i'm disgwyliadau drwy dynnu sylw at rwymedigaethau rheoleiddio craidd y darparwr mewn perthynas ag Arolygiaeth Gofal Cymru fel y rheoleiddiwr."*

## Herio adroddiadau arolygu

Os bydd darparwyr yn anhapus â'n gwaith, gallant ofyn am adolygiad o adroddiad arolygu neu gallant wneud cwyn.

Dim ond 145 o heriau i'n hadroddiadau a ddaeth i law, gan gynrychioli 6% o'r holl adroddiadau a gyhoeddwyd. Mae dau gam i'n proses. Gwnaethom lwyddo i ddatrys y mwyafrif o'r materion ar y cam cyntaf, gyda dim ond 14.5% (21) o'r rhain yn symud ymlaen i gam dau, lle mae un o reolwyr annibynnol AGC yn adolygu ein penderfyniad gwreiddiol.

**Cwynion:** Y flwyddyn hon, daeth 27 o gwynion i law (yr un nifer â'r flwyddyn diwethaf), a chafodd 20 ohonynt eu cwblhau ar y cam 'datrysiad cynnar' a dim ond tri gafodd eu huwchgyfeirio i ymchwiliad ffurfiol. Gwnaed un gŵyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a roddodd ymateb datrysiad cynnar gyda chamau gweithredu i AGC fynd i'r afael â nhw.

Caiff yr holl gwynion eu hystyried gan ein huwch-dîm arwain i sicrhau y caiff yr holl gamau gweithredu ac unrhyw wersi i'w dysgu eu rhoi ar waith.

**Sylwadau:** Pan fyddwn wedi cymryd camau gorfodi fel atal gwasanaeth dros dro neu ei ganslo, neu wrthod cofrestru gwasanaeth, gall darparwyr wneud sylwadau i AGC ynghylch hyn. Caiff y sylwadau eu hadolygu gan un o reolwyr AGC nad oes ganddo unrhyw gyfrifoldeb rheolwr llinell dros y sawl sy'n gwneud y penderfyniad.

Y flwyddyn hon, gwnaeth saith darparwr sylwadau (dau wasanaeth plant, un gwasanaeth i oedolion a phedwar gwasanaeth gofal plant). Mae'n gadarnhaol nodi na chafodd pump o'r wyth eu cadarnhau gan wneuthurwr penderfyniadau annibynnol, sy'n dangos bod y dystiolaeth ar gyfer yr hysbysiad a gyhoeddwyd yn ddilys ar y pryd a bod ein dull o wneud penderfyniadau yn cyd-fynd â'n gwerthoedd.

Gall darparwr hefyd benderfynu gwneud cais i'r Tribiwnlys Safonau Gofal. Y flwyddyn hon, dim ond un darparwr a apeliodd i'r Tribiwnlys Safonau Gofal. Gwrthododd y Tribiwnlys yr apêl gan gadarnhau penderfyniad AGC i ganslo'r cofrestriad.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd
Trosolwg o'n sefydliad
Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025
Ymgysylltu â phobl
Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru
Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant
- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae
Ansawdd ein gwaith
**Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant**
Rhestr termau
Rhowch wybod i ni beth yw eich barn




# Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

| | |
|---|---|
| Y gyllideb a ddyrannwyd i ni ar gyfer 2024-25 oedd | **£15,908,000** |
| Cawsom hefyd gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer: | |
| Cyflwyno graddau ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref, a chyflwyno gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig fel gwasanaeth rheoleiddiedig newydd | **£662,370** |
| Arolygiadau ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant (JICPA) | **£174,755** |
| **Cyfanswm y cyllid** | **£16,745,125** |
| Costau | |
| Costau staff yn cynnwys Arolygwyr y Telir Ffi Iddynt | **£14,806,556** |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff (TGCh, cyfieithu, teleffoni, teithio a chynhaliaeth ac ati) | **£1,245,674** |
| **Cyfanswm y costau** | **£16,052,230** |
| Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, roedd £14,806,556 wedi cael ei wario ar gostau staff ac roedd £1,245,674 wedi cael ei wario ar gostau nad oeddent yn ymwneud â staff, gyda gweithgarwch arolygu a rheoleiddio yn cyfrif am 76% o gostau staff.<br><br>Gwnaethom adrodd tanwariant o £692,895 ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Roedd hyn oherwydd y nifer uchel o swyddi gwag heb eu llenwi. Wrth i rolau â blaenoriaeth gael eu llenwi yn ddiweddarach yn y flwyddyn, caiff costau staff cysylltiedig eu gwireddu ym mlwyddyn ariannol 2025-26. | |

# Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

## Dosbarthiad gwariant AGC




Nodyn: Mae 'Arall' yn gyfuniad o gostau llai. Ymysg yr enghreifftiau mae recriwtio, ffioedd cyfreithiol, gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a hyfforddiant staff.

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd
Trosolwg o'n sefydliad
Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025
Ymgysylltu â phobl
Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru
Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant
- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae
Ansawdd ein gwaith
**Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant**
Rhestr termau
Rhowch wybod i ni beth yw eich barn

Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd
Trosolwg o'n sefydliad
Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025
Ymgysylltu â phobl
Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru
Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant
- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae
Ansawdd ein gwaith
Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant
Rhestr termau
Rhowch wybod i ni beth yw eich barn



# Rhestr termau

## Isod ceir esboniad cryno o'r termau a ddefnyddir gennym. Mae rhagor o fanylion ar gael ar ein gwefan.

**Cofrestru** – y broses pan fydd gwasanaeth yn cofrestru'n gyfreithlon â ni er mwyn gweithredu yng Nghymru. Rydym hefyd yn rheoli newidiadau i wasanaethau sydd wedi cofrestru eisoes.

**Arolygu** – Rydym yn cynllunio ac yn blaenoriaethu ein harolygiadau gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym am wasanaethau. Mae'r ymweliad arolygu yn rhan bwysig o'n gwaith. Ein prif ffocws yw profiadau pobl a ph'un a ydynt yn cael eu cefnogi'n ddiogel i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Rydym yn defnyddio llinellau ymholi allweddol o'n fframweithiau arolygu, wedi'u llywio gan ein dadansoddiad o'r wybodaeth sydd gennym am wasanaethau unigol gan gynnwys hysbysiadau a phryderon. Lle y caiff canlyniadau cadarnhaol neu wael i bobl eu nodi, rydym bob amser yn ymchwilio i achosion sylfaenol hyn.

**Pryderon** – Gall unrhyw un rannu pryderon am wasanaeth â ni naill ai ar-lein, dros e-bost, dros y ffôn neu mewn llythyr. Caiff pob pryder a ddaw i law ei ystyried gan arolygydd cyn i ni benderfynu beth y byddwn yn ei wneud. Pan gaiff pryderon eu rhannu â ni gan staff sy'n gweithio mewn gwasanaeth, cyfeirir atynt fel 'chwythwyr chwiban' gan fod hyn yn rhoi diogelwch cyfreithiol i'r aelod o'r staff. Nid ydym yn ymchwilio i bryderon unigol, ond mae gwybodaeth o bryderon yn rhoi cipolwg i ni ar ba mor dda y gall gwasanaeth fod yn gweithredu ac rydym yn defnyddio hyn i lywio ein harolygiadau o'r gwasanaeth.

**Hysbysiadau** – Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ddarparwyr roi gwybod i ni am ddigwyddiadau a all effeithio ar y bobl sy'n defnyddio eu gwasanaeth. Mae'r rhestr o ddigwyddiadau hysbysadwy yn eang ac yn cynnwys diogelu, newidiadau o ran rheolaeth, materion amgylcheddol ac anafiadau difrifol sy'n digwydd o fewn y gwasanaeth. Rydym yn adolygu hysbysiadau ac yn penderfynu ar y camau mwyaf priodol. Rydym yn ystyried unrhyw themâu wrth gynllunio ein harolygiad nesaf.

**Gorfodi** – Pan fyddwn yn gweld nad yw gwasanaethau yn darparu gofal priodol a bod llesiant neu ddiogelwch y bobl yn y fantol, gan gynnwys gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestriad, byddwn yn gweithredu. Mae gennym lwybr gorfodi clir, graddedig a chymesur. Efallai y byddwn yn nodi meysydd i'w gwella i'r darparwr fynd i'r afael â nhw neu pan fydd angen gwelliant sylweddol, byddwn yn rhoi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr wella. Gallwn hefyd atal gwasanaethau gofal plant ar frys. Yn ein gwaith gydag awdurdodau lleol, rydym yn nodi meysydd i'w gwella, ond nid oes gennym bwerau gorfodi. Mae ein dull gweithredu wedi'i nodi yn ein polisi ar sicrhau gwelliant a gorfodi.

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**


Cyflwyniad gan ein Prif Arolygydd

Trosolwg o'n sefydliad

Myfyrio ar ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

Ymgysylltu â phobl

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Rhoi sicrwydd a chefnogi gwelliant

- Gofal cymdeithasol i oedolion
- Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc
- Gofal plant a chwarae

Ansawdd ein gwaith

Cyllideb ariannol a dadansoddiad o wariant

Rhestr termau

**Rhowch wybod i ni beth yw eich barn**




# Rhowch wybod i ni beth yw eich barn

Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth ar ddefnyddioldeb ein hadroddiad blynyddol. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gwblhau'r arolwg byr hwn.

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

**Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2024-2025**
This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025 WG53287

ISBN Digidol 978-1-80633-561-9



**Arolygiaeth Gofal Cymru**
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

**0300 7900 126**

AGC@llyw.cymru | arolygiaethgofal.cymru